



ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Barn plant ysgolion cynradd am y
cynigion i droi Ysgol Bryn Hafren ac
Ysgol Gyfun y Barri yn ddwy ysgol
gydaddysgol newydd**



Medi 2016

Cwblhawyd yr ymgynghoriad a'r adroddiad hwn ar ran



gan



Awdur: Jo Stephens

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau gan Jo Stephens a Phill Burton

Hoffem ddiolch i'r canlynol:

Pob plentyn a gymerodd ran o'r ysgolion cynradd a ganlyn:
**Ynys y Barri, Gwenfo, Holton, Gladstone, Cadoxton, Palmerston, y Stryd Fawr,
Romilly, y Rhws a Pharc Jenner**

a'r holl athrawon, cynorthwyyr addysgu a gwirfoddolwyr a gynorthwyodd y plant ysgol
gynradd i gymryd rhan.

Diolch hefyd i:

Ysgol Gynradd Heol Holton ac Ysgol Gynradd Cadoxton am gael cynnal y digwyddiadau yno
ac am y croeso.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
• Nodau	4
• Pwy	5
• Cefndir	5
Y Broses Ymgynghori	7
• Dull Gweithredu	7
• Cwestiynau a dulliau	7
• Yr Ymgynghoriad mewn Rhifau	11
Crynodeb Gweithredol	12
Canlyniadau fesul Cwestiwn	16
• Cyfranogwyr	16
• Ydych chi'n gwybod i ba ysgol gyfun y byddwch yn mynd? Os ydych, i ba un?	17
• Ydych chi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol gyfun?	18
• Sut mae eich aelod ychwanegol o'r grŵp yn teimlo am fynd i Ysgol Gyfun y Barri/Bryn Hafren?	20
• Ydy ysgolion cymysg (cydaddysgol) yn syniad da?	21
• Sut fyddai aelodau ychwanegol grwpiau'n teimlo pe baent yn Ysgol Gyfun y Barri/Bryn Hafren yn ystod y newid i gydaddysgol?	24
• Ydy'r cynlluniau'n syniad da?	25
• Beth yw eich dymuniadau a'ch pryderon am y cynlluniau?	27
• Beth fyddai'n gwneud yr ysgol uwchradd orau yn y byd?	32
• Pa rai o syniadau eich grŵp chi yw eich hoff syniadau?	33
• Oes gennych chi gwestiynau am y cynlluniau?	34
• Fyddech chi'n hoffi awgrymu enwau ar gyfer yr ysgolion newydd?	34
Atodiad – cofnod llawn o'r sylwadau	35

Cyflwyniad

Nodau

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ymgynghoriad am y newidiadau arfaethedig i'r ddwy ysgol gyfun un rhyw yn y Barri.

Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai dwy ysgol gydaddysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed yn cael eu creu ar safleoedd Ysgol Bryn Hafren ac Ysgol Gyfun y Barri. Byddai'r rhain yn agor ym Medi 2018.

Byddai ysgol newydd sbon yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Gyfun y Barri, a byddai'r adeilad presennol yn cael ei ddymchwel ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu.

Byddai gwaith yn cael ei wneud yn Ysgol Bryn Hafren i adnewyddu a gwella'r cyfleusterau presennol yno.

Byddai chweched dosbarth ar y cyd yn cael ei sefydlu ar gyfer y ddwy ysgol newydd.

Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn rhannu dalgylch; pe bai'r cynigion newydd yn cael eu derbyn byddai dau ddalgylch newydd yn cael eu sefydlu.

Byddai disgyblion a fyddai eisoes yn mlynnyddoedd 7-10 yn Ysgol Gyfun y Barri neu Ysgol Bryn Hafren, a'u teuluoedd, yn gallu dweud ym mha ysgol y byddent yn hoffi parhau â'u haddysg. Os nad ydynt o fewn y dalgylch ar gyfer yr ysgol o'u dewis byddant yn cael mynediad ar yr amod bod lle ar gael.

Er mwyn amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar baratodau ar gyfer arholiadau TGAU bydd disgyblion ym mlwyddyn 11 yn aros yn eu dosbarthiadau presennol a byddant yn cael eu cofrestru yn yr ysgol a fydd yn agor ar safle eu hysgol bresennol.

Bydd disgyblion sy'n mynd i flynyddoedd 12 ac 13 hefyd yn cael eu cofrestru yn yr ysgol a fydd yn agor ar safle eu hysgol bresennol ond byddant yn aros yn eu dosbarthiadau presennol am 2018-19.

Sefydli'r cyrff llywodraethu newydd ar gyfer y ddwy ysgol newydd a byddant yn gyfrifol am benodi penaethiaid. Bydd y cyrff llywodraethu newydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth a strwythurau staffio, a bydd angen cynllunio'r rhain i ddiwallu anghenion pob ysgol newydd. Bydd y Cyngor yn cynghori cyrff llywodraethu i sicrhau bod rolau'n cael eu cadw ar wahân yn y ddwy ysgol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd, cysondeb a chefnogaeth i ddisgyblion.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn disgyblion o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Pwy

Bro Morgannwg

Rhoddodd Cyngor Sir Bro Morgannwg y gwaith o ymgynghori â phlant ysgolion cynradd ar gontract i Dynamix. Yr Uwch Reolwyr a oedd yn gyfrifol am yr ymgynghoriad hwn oedd Lisa Lewis a Mike Matthews.

Ysgolion

Yr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn oedd:

Ynys y Barri	Gwenfo	Holton	Gladstone	Cadoxton
Palmerston	Y Stryd Fawr	Romilly	Y Rhws	Parc Jenner

Gwahoddwyd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eraill i fod yn rhan o'r ymgynghoriad ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol. Bydd pob plentyn sy'n mynychu ysgol gynradd yn y Barri wedi cael cyfle i fynegi ei farn drwy arolwg yn yr ysgol.

Dynamix

Cafodd Dynamix gontract gan Gyngor Sir Bro Morgannwg ym Medi 2016 i gynnal yr ymgynghoriad hwn, casglu barn y plant a llunio adroddiad i grynhoi'r farn honno.

Menter gymdeithasol Gymreig yw Dynamix. Mae'n darparu gwasanaethau hwyluso ac ymgynghori ynghyd â hyfforddiant ac mae wedi datblygu enw arbennig o dda iddi ei hun yn y maes hwn dros gyfnod o 27 mlynedd. Mae Dynamix yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl gan ddefnyddio gweithgareddau cyfranogol er mwyn ymgysylltu mewn ffordd gynhwysol.

Yr Arbenigwyr Ymgynghori o Dynamix oedd Jo Stephens a Phill Burton.

Cefndir

Mae pedair ysgol uwchradd yn y Barri ar hyn o bryd:

- Ysgol Gyfun y Barri i fechgyn 11-18 oed, â 6ed dosbarth rhannol gymysg – ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg
- Ysgol Gyfun Bryn Hafren i ferched 11-18 oed, â 6ed dosbarth rhannol gymysg – ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg
- Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ar gyfer bechgyn a merched 11-18 oed – ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg
- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn i fechgyn a merched 11-16 oed – ysgol wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg (ysgol Gatholig)

Mae llawer o blant y Barri hefyd yn mynd yn eu blaenau i addysg uwchradd y tu allan i'r dref, naill ai mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg neu yng Nghaerdydd.

Mae'r cynnig yn ymwneud ag Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar farn plant o ysgolion cynradd yn y Barri. Mae'n rhan o ymgynghoriad ehangach gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd, llywodraethwyr a staff eraill a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

Mae'r ymgynghoriad yn dilyn cynnig blaenorol yn 2015 i greu ysgol gymysg newydd sbon ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a symud yr ysgol Gymraeg i hen safle Bryn Hafren. Ar ôl ymgynghori â rhieni, disgyblion, athrawon a llywodraethwyr penderfynodd y Cyngor edrych ar ddewisiadau eraill, ac mae'r cynnig presennol yn deillio o hynny.

Rhesymau dros y cynnig

1. Mae lleoedd gwag yn ysgol y bechgyn ac yn ysgol y merched: Mae ysgolion sydd â mwy na 25% o leoedd gwag yn cael eu categorio gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd â nifer 'sylweddol' o leoedd gwag y dylid ei leihau fel mater o flaenoriaeth. Mae'r ddwy ysgol cyfrwng Saesneg yn y categori hwn.
2. Codi safonau yn ysgol y bechgyn ac yn ysgol y merched: Yn ychwanegol at hyn, mae angen codi safonau yn Ysgol Gyfun y Barri ac yn Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Bwriad y cynnig yw cyflymu'r gwelliannau presennol yn Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren.
3. Cyflwr yr adeiladau: Mae rhai o adeiladau'r ysgolion uwchradd mewn cyflwr gwael ac mae'r cynigion yn ceisio rhoi sylw i hyn.

Y Broses Ymgynghori

Cydgysylltu

- ✓ Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy gyfrwng pedwar gweithdy 2 awr, ond at ei gilydd roedd y rhain ychydig yn fyrrach ar y diwrnod oherwydd anghenion yr ysgolion a oedd yn dod iddynt.
- ✓ Cynhaliwyd y gweithdai ar 27 a 28 Medi 2016.
- ✓ Cynhaliwyd hwy yn Ysgol Gynradd Holton ac Ysgol Gynradd Cadoxton.
- ✓ Roedd pob un yn cynnwys plant o ddwy neu dair ysgol ar y tro.
- ✓ Mae'r rhan fwyaf o'r plant a gymerodd ran ym mlwyddyn 5 a 6 ar hyn o bryd. Roedd un ym mlwyddyn 4.
- ✓ Roedd y grwpiau'n gyfuniad o fechgyn a merched.
- ✓ Roedd y grwpiau'n gymharol fach – deuddeg disgybl oedd yn y grŵp mwyaf.
- ✓ Roedd ychydig o'r plant wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig blaenorol.

Dull gweithredu

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau ymgynghori cyfranogol er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn ac er mwyn cynnal diddordeb pawb yn y broses. Defnyddiwyd technegau amrywiol er mwyn rhoi cyfle i bob unigolyn fynegi ei farn sut bynnag y mae'n hoffi gwneud hynny, boed yn gorfforol, yn weledol, yn llafar, mewn grwpiau bach neu fawr neu mewn ffurf ysgrifenedig. Defnyddiwyd gemau er mwyn sicrhau amgylchedd cadarnhaol a bywiog ac er mwyn gwrthbwysu'r gweithgareddau meddyliol, cryf â rhai ysgafnach, mwy hamddenol. Golyga hyn fod y cyfranogwyr yn teimlo'n ddigon cyfforddus a hyderus i gyfranogi'n llawn. Rydym yn defnyddio dulliau ymgynghori sy'n cael eu hwyluso er mwyn i gyfranogwyr deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a gwybod bod eu meddyliau a'u barn yn cyfrif ac yn cael eu cyfrif.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod yr wybodaeth yn cael ei chasglu mewn ffordd ansafonol ac, o ganlyniad, nad yw dadansoddiad ystadegol llawn yn briodol. Yn hytrach, darperir adroddiad ansoddol, cyfoethog, cipolwg defnyddiol ar batrymau a gwybodaeth werthfawr, yn ogystal â phrofiad cadarnhaol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae methodoleg Dynamix yn seiliedig ar ein gwerthoedd ymgysylltu drwy gyfranogi a mwynhau, parch, cynhwysiant, cydweithredu a grymuso ynghyd â'r gwerthoedd a'r egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix hefyd yn gefnogwr brwd o'r 12 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r 7 Safon Gymreig ar gyfer Cyfranogiad.

Cwestiynau a dulliau

Datblygwyd rhaglen benodol o weithgareddau er mwyn ymgynghori â'r plant ynglŷn â phob un o'r cwestiynau. Mae'r rhaglen amlinellol i'w gweld isod. Addaswyd y rhaglen ar gyfer pob gweithdy er mwyn ystyried anghenion a diddordebau penodol y grŵp a'r amser a neilltuwyd ar gyfer y gweithdy.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n gwybod i ba ysgol gyfun y byddwch yn mynd? Os ydych, i ba un?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol gyfun?

Cwestiwn 3: Sut mae eich aelod ychwanegol o'r grŵp yn teimlo am fynd i Ysgol Gyfun y Barri/Bryn Hafren?

Cwestiwn 4: Ydy ysgolion cymysg (cydaddysgol) yn syniad da?

Cwestiwn 5: Sut fyddai aelodau ychwanegol grwpiau'n teimlo pe baent yn Ysgol Gyfun y Barri/Bryn Hafren yn ystod y newid i gydaddysgol?

Cwestiwn 6: Ydy'r cynlluniau'n syniad da?

Cwestiwn 7: Beth fyddai'n gwneud yr ysgol uwchradd orau yn y byd?

Cwestiwn 8: Beth yw eich dymuniadau a'ch pryderon am y cynlluniau?

Cwestiwn 9: Pa rai o syniadau eich grŵp chi yw eich hoff syniadau?

Cwestiwn 10: Oes gennych chi gwestiynau am y cynlluniau?

Cwestiwn 11: Fyddech chi'n hoffi awgrymu enwau ar gyfer yr ysgolion newydd?

Gweithgareddau rhagarweiniol

Roedd plant o'r gwahanol ysgolion fel arfer yn cyrraedd ar adegau gwahanol. Pan oeddent yn dod i mewn roeddent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd cofrestru creadigol lle roeddent yn addurno **person sinsir** ac yn ychwanegu eu henw cyntaf a'r ysgol gynradd roeddent yn mynd iddi. Yn ogystal â bod yn ddefnyddiol at ddibenion monitro roedd hyn yn helpu'r plant i ymlacio ac i deimlo'n frwdfrydig ynglŷn â'r sesiwn. Os oedd rhagor o amser aros roeddem yn chwarae gemau byr i'w cadw'n hapus ac yn brysur.

Cyflwyno'r ymgynghoriad

Roeddem yn dechrau pob sesiwn drwy gyflwyno ein hunain a chynrychiolwyr o'r cyngor, a chyflwyno nodau'r ymgynghoriad, mewn ffordd hawdd ei deall. Roedd rhai o'r plant yn gwybod am y cynlluniau ac roedd ychydig wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ynglŷn â'r cynigion blaenorol.

Roeddem yn ychwanegu darnau newydd o wybodaeth am y cynlluniau drwy gydol y sesiwn, gan gynnwys **Llinell Amser** yn nodi pryd mae pethau wedi digwydd a phryd y gallent ddigwydd. Roeddem hefyd yn gwirio'n rheolaidd bod y plant wedi deall cymaint ag a oedd yn bosibl, gan geisio cadw cydbwysedd rhwng rhannu llawer o wybodaeth a chanfod beth roeddent yn ei feddwl am y cynlluniau.

Ar ôl i ni rannu'r nodau cynhaliwyd gweithgaredd o'r enw **Gwneud iddo Weithio** er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth fyddai'n digwydd yn y sesiwn, gyda'r plant yn cymryd rhan ac yn dweud wrthym beth fyddai'n gwneud y gweithdy yn hwyl ac yn ddefnyddiol iddynt – roedd hyn yn cynnwys pethau fel 'cadw'r elfen hwyliog' 'dim gormod o

ysgrifennu' a 'gwrando ar ein gilydd'. Roedd hyn hefyd yn golygu y gallent weld ein bod yn cymryd eu barn o ddifri o'r dechrau un.

I ba ysgol uwchradd y byddwch yn mynd?

Roeddem yn awyddus i ddod â'r plant i mewn i'r ymgynghoriad yn raddol drwy chwarae gêm, ac i ddefnyddio hyn hefyd i ddechrau cael ychydig o wybodaeth ganddynt. Mae gêm **Mae'r Gwynt Mawr yn Chwythu** (*The Big Wind Blows*) yn caniatáu'r ddau – roedd y plant yn symud ar draws y cylch mewn ymateb i ddatganiadau, rhai a oedd yn ddoniol a rhai a allai eu hysgogi i feddwl am bwrpas yr ymgynghoriad. Os oeddent yn symud roeddem yn cael gwybodaeth ganddynt a oedd yn gysylltiedig â'r datganiad – boed yn ganfod pa anifeiliaid anwes oedd ganddynt gartref, neu ar gyfer yr ymgynghoriad, a oeddent yn gwybod i ba ysgol uwchradd y byddent yn mynd, ac os oeddent, pa un.

Ydych chi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol uwchradd?

Roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol canfod sut roedd y plant yn teimlo ynglŷn â symud i ysgol uwchradd yn gyffredinol, pa un a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt ai peidio. Roedd nifer o'r plant ym mlwyddyn 6 felly mae hwn yn rhywbeth y maent yn meddwl llawer iawn amdano. Gallai'r wybodaeth roeddent yn ei rhoi i ni helpu i ganfod pa obeithion a phryderon cyffredin oedd yn gysylltiedig â symud i fyny yn gyffredinol a pha rai oedd yn unigryw neu'n cael eu cynyddu gan y newidiadau arfaethedig. Defnyddiasom y gweithgaredd matiau **YDW, NAC YDW, EFALLAI** i ganfod hyn. Unwaith eto, defnyddiasom enghreifftiau hwyliog iddynt ddod i arfer â'r gweithgaredd ac â rhannu eu barn ar lafar.

Sut y gallai rhywun arall fod yn teimlo ynglŷn â mynd i Ysgol Gyfun y Barri neu Ysgol Bryn Hafren?

Nid yw pob un o'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn bwriadu mynd i Ysgol Bryn Hafren neu Ysgol Gyfun y Barri, ond roeddem eisiau iddynt feddwl sut y gallai eu cyfoedion a **fydd** yn mynd yno fod yn teimlo ynglŷn â mynd yno fel y maent nawr. Mae hefyd yn haws i rai pobl rannu eu barn drwy gymryd arnynt eu bod yn siarad am rywun arall, hyd yn oed os yw'r farn honno'n adlewyrchiad cywir o'u barn hwy. Oherwydd hyn, defnyddiasom y gweithgaredd **Aelod Ychwanegol o'r Dosbarth**. Mewn grwpiau bach mae'r plant yn tynnu amlinelliad o berson, ac yna'n creu hunaniaeth i'r person hwnnw – enw, rhyw, teulu, beth mae'n ei hoffi, beth nad yw'n ei hoffi ac yn y blaen. Yna gofynasom i'r plant nodi a fyddai'r person ifanc hwnnw'n mynd i Ysgol Bryn Hafren ynteu i Ysgol Gyfun y Barri, gan ddibynnu a yw'n fachgen ynteu'n ferch, ac i ychwanegu sut y mae'n teimlo ynglŷn â mynd yno.

Ydy ysgolion cymysg (cydaddysgol) yn syniad da?

Ar ôl i'r grwpiau gael ychydig o amser i feddwl sut brofiad fyddai mynd i ysgol uwchradd un rhyw, roeddem eisiau clywed a oeddent yn meddwl bod gwneud hynny'n ddewis da.

Defnyddiasom fatiau **YDW, NAC YDW, EFALLAI** unwaith yn rhagor i ganfod sut roeddent yn teimlo.

Sut y byddai rhywun yn teimlo pe bai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri neu Ysgol Bryn Hafren yn ystod y newidiadau?

Roedd rhan nesaf y sesiwn yn edrych ar y llinell amser, yn gwneud yn siŵr bod y plant yn deall ac yna'n gofyn iddynt ddychmygu sut brofiad fyddai bod yn un o'r ysgolion tra roedd y cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith. Defnyddiasom eu **Haelodau Ychwanegol o'r Dosbarth** unwaith eto ar gyfer hyn. Gofynasom iddynt feddwl ym mha ddalgylch roedd eu haelod ychwanegol o'r grŵp ac, o ganlyniad, i ba ysgol y disgwylid iddo fynd. Eglurasom y gallent ddweud i ba un y byddai'n well ganddynt fynd, ond nad oedd sicrwydd y byddai lle yno iddynt. Ceisiwyd eu cael i feddwl hefyd sut brofiad fyddai bod yn yr ysgolion tra roedd gwaith yn cael ei wneud, yn ogystal â sut y byddent yn teimlo yn gyffredinol oherwydd y newidiadau.

Ydy'r cynlluniau'n syniad da?

Yna gofynasom i'r plant feddwl am yr hyn a oedd wedi'i drafod hyd yn hyn am y cynlluniau a'r newidiadau y byddent yn ei olygu, a gofynasom iddynt ddweud wrthym a oeddent yn meddwl bod y cynlluniau'n syniad da at ei gilydd. Defnyddiwyd matiau **YDW, NAC YDW, EFALLAI** i wneud hyn.

Beth fyddai'n gwneud yr ysgol uwchradd orau yn y byd?

Yn dilyn hyn roeddem eisiau darganfod beth yn eu barn hwy fel disgyblion arbenigol fyddai'n gwneud ysgol uwchradd wirioneddol dda – sut adeilad fyddai yno, y wisg ysgol, y dysgu, manau awyr agored ac yn y blaen. Defnyddiasom **STORM SYNIADAU 'POST IT'** ar gyfer hyn a gofyn i'r plant, mewn grwpiau bach, ysgrifennu eu syniadau ar bapurau 'post it'.

Pa rai o syniadau eich grŵp chi yw eich hoff syniadau?

Ar ôl i'r syniadau am ysgol orau'r byd gael eu bwydo yn ôl i'r grŵp roeddem eisiau i'r plant nodi a blaenoriaethu pa rai oedd y rhai pwysicaf yn eu barn hwy, gan gofio nad oes pwl diwaelod o arian i greu'r ysgol ddelfrydol. Defnyddiasom **Bleidleisiau Dotiau** ar gyfer hyn – roedd pob plentyn yn cael 7 dot ac roeddem yn gofyn iddynt eu defnyddio i bleidleisio dros eu hoff awgrymiadau.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynlluniau?

Wrth i ni fynd yn ein blaenau roeddem yn gofyn i'r grŵp a oedd unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynlluniau – roedd hyn hefyd yn golygu ein bod yn gwybod eu bod yn gallu ystyried eu

hymatebion yn well yn ystod y gweithgareddau dilynol. Ymdriniwyd â'r cwestiynau fel grŵp cyfan, a rhoddwyd atebion gennym ni neu gan Lisa Lewis neu Mike Matthews a oedd yn cynrychioli'r awdurdod lleol.

Fyddech chi'n hoffi awgrymu enwau i'r ysgolion newydd?

Defnyddiasom **Storm Syniadau** neu **Wal Graffiti** i'r plant ysgrifennu unrhyw enwau a fyddai yn eu barn hwy'n enwau da i'r ysgolion newydd.

Yr Ymgynghoriad mewn Rhifau

Nifer yr ysgolion a gymerodd ran: **10** Nifer y disgyblion a

gymerodd ran: **41** Nifer y bechgyn: **21** Nifer y merched:

20 Y nifer oedd yn gwybod i ba ysgol uwchradd y byddent yn

mynd: **36** Y nifer a ddywedodd eu bod yn mynd i Ysgol Bryn

Hafren neu Ysgol Gyfun y Barri: **18** Y nifer sy'n edrych ymlaen i
fynd i ysgol uwchradd:

Ydw **16** Nac ydw **10** Efallai **15**

Y nifer sy'n meddwl bod ysgolion cymysg/cydaddysgol yn syniad da:

Ydw **13** Nac ydw **11** Efallai **17**

Y nifer sy'n meddwl bod y cynlluniau newydd yn syniad da: Ydw

17 Nac ydw **13** Efallai **11**

Crynodeb Gweithredol

Roedd y canlyniadau ar gyfer y cwestiynau allweddol – ‘**Ydy ysgolion cydaddysgol yn syniad da?**’ ac ‘**Ydy’r cynlluniau’n syniad da?**’ wedi eu rhannu’n weddol gyfartal rhwng y rhai a oedd yn cytuno â’r cynigion, y rhai nad oeddent yn cytuno, a’r rhai a oedd â theimladau cymysg amdanynt.

O ran y cwestiwn yn ymwneud ag addysg gymysg gwelsom mai’r grŵp mwyaf oedd y rhai nad oeddent yn siŵr (17) ac nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng y grŵp ydw (13) a’r grŵp nac ydw (11).

O ran y cwestiwn a oeddent yn meddwl bod y cynlluniau’n syniad da at ei gilydd dywedodd y rhan fwyaf ‘ydw’ (17), a dywedodd 13 ‘nac ydw’ ac 11 ‘efallai’; mae’r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn ychydig yn gliriach ond nid oes mwyafrif helaeth.

Canfu’r cwestiynau a ofynnwyd gryn dipyn o wybodaeth ansoddol – rydych yn dod i weld pam y pleidleisiodd y plant mewn ffordd benodol, a chryfder y teimlad y tu ôl i’w dewisiadau, ac yn dod i ddeall eu gobeithion a’u hofnau am y cynlluniau arfaethedig.

O gymharu’r canlyniadau ar gyfer pob cwestiwn gwelwn fod themâu clir yn dod i’r amlwg drwy gydol yr ymgynghoriad.

Drwy archwilio’r newidiadau posibl i Ysgol Bryn Hafren ac Ysgol Gyfun y Barri gwelsom sut roeddent hwy a phlant eraill yn teimlo am y **trosglwyddo** o’r cynradd i’r uwchradd. Disgrifiwyd pob math o deimladau, yn amrywio o gyffro i bryder gwirioneddol. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo’n fwy na pharod i symud i fyny, eu bod eisiau mwy o annibyniaeth a her yn eu bywydau, ac y byddai’n eu helpu i ddatblygu a chyflawni eu dyheadau. Roeddent hefyd yn awyddus i ddefnyddio’r adnoddau a fyddai ar gael yn yr ysgol uwchradd, boed yn salon neu dechnoleg a gwersi gwyddoniaeth cyffrous. Dywedodd eraill nad oeddent eisiau iddo ddigwydd, ac nad oeddent yn barod. Mae elfen **anghyfarwydd** – roedd rhai’n poeni ynglŷn â maint yr ysgol gyfun, mynd ar goll, peidio â gwybod ble roedd pethau a methu ag ymdopi â’r ddisgyblaeth a’r llwyth gwaith. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy gwir am y rhai ym mlynnyddoedd 4 neu 5 a gymerodd ran, gan ei fod gymaint ymhellach i ffwrdd oddi wrthynt hwy. Mae’n bwysig cydnabod y gallai rhai o’r elfennau anghyfarwydd hyn fod yn sail i’r ffordd yr atebwyd y cwestiynau yn yr ymgynghoriad.

Mae **cyfeillgarwch** yn elfen bwysig iawn o’r ffordd y mae plant yn teimlo am yr ysgol a meddylwyd cryn dipyn am hyn wrth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Roedd llawer ohonynt yn edrych ymlaen i fynd i ysgolion uwchradd gyda’u ffrindiau presennol a bod yno hefyd gyda ffrindiau a theulu roeddent yn eu hadnabod o rannau eraill o’u bywydau. Roedd llawer o gyffro ynglŷn â gwneud ffrindiau newydd, ond roedd rhai’n poeni na fyddai hyn yn digwydd.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn mynd i fod yn mynychu gwahanol ysgolion uwchradd yn y Barri a thu hwnt. Roedd nifer ohonynt eisoes yn poeni tipyn am **golli ffrindiau** a oedd yn

mynd i rywle arall, ac am golli cyfeillgarwch. Roedd hyn yn arbennig o wir am ffrindiau o'r un rhyw, ond roedd hefyd yn wir am ffrindiau o'r rhyw arall.

Roedd yr effaith bosibl ar gyfeillgarwch yn beth mawr wrth ystyried y cynlluniau arfaethedig, yn enwedig o ganlyniad i'r dalgylchoedd newydd. Eglurasom y byddent yn gallu nodi eu hoff ddewisiadau ar gyfer hyn ond roeddent yn sylweddoli y gallai hyn ddal i olygu y gallai rhai ohonynt neu eu ffrindiau symud – roedd llawer ohonynt yn gweld hyn fel rhywbeth mawr oherwydd efallai y byddent wedi **treulio amser yn datblygu cyfeillgarwch** ac yna'n cael eu gwahanu.

Gallai'r posibilrwydd o ysgolion un rhyw hefyd gael effaith ar gyfeillgarwch, yn enwedig i rai o'r merched a ddywedodd eu bod yn gallu cyd-dynnu'n well â'r bechgyn nag â merched eraill – roedd rhai o'r rhain yn teimlo y gallai fod yn bur anodd iddynt pe na bai'r dewis hwn ganddynt. Dywedodd eraill yn syml iawn y byddent yn colli cael cymysgedd o ffrindiau o'r ddau ryw, neu y gallai fod yn anodd bod ar wahân i'w cariad.

Siaradodd llawer am y ffaith fod lleoliad cydaddysgol yn **fwy cynrychioladol o fywyd go iawn** – mai dyma beth roeddent wedi arfer ag ef ac mai dyma sut y byddai hi yn y gweithle a'r byd y tu allan i'r ysgol. Roedd ychydig yn anghytuno â'r angen i gael ysgol gymysg am resymau tebyg – y byddent yn cael digon o orfod bod gyda'r rhyw arall ac y byddai hyn yn seibiant oddi wrth hynny. Dywedodd rhai fod plant yn hapus gyda'r ffordd y mae pethau ar hyn o bryd, ac os oeddent eisiau mynd i ysgol gymysg y gallent wneud hynny yn rywle arall.

Cydnabyddid y gallai addysg gydaddysgol gael effaith ar safon y gwaith a gynhyrchid – yn bennaf y gallai **canlyniadau** fod yn well os oeddent yn gweithio gyda'i gilydd, yn enwedig i fechgyn. Gwelid y gallai hyn ddarparu rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chefnogaeth i'r rhai sydd angen hynny. Dywedodd ychydig eu bod yn meddwl y byddai **enw da** a phoblogrwydd Ysgol Gyfun y Barri yn gwella pe bai merched yn mynd yno. Cyfeiriwyd at enw hefyd wrth ddisgrifio ysgol ddelfrydol – dywedodd un person y byddai'n hoffi i'w ysgol gael ei hadnabod fel yr ysgol orau yn y Barri.

Roedd rhai pryderon ynglŷn â pha mor dda y byddai bechgyn a merched yn cyd-dynnu pe baent yn mynd i'r un ysgol uwchradd, ac roedd nifer yn poeni y gallai'r amgylchedd fod yn fwy ymosodol; y pryderon mwyaf cyffredin oedd y byddai bechgyn a merched yn **dadlau ac yn ymladd**, ac y byddai bechgyn yn ymladd dros ferched. Cafwyd sylwadau cyffredinol ynglŷn â **stereotypeio bechgyn a merched**, a'r ffaith eu bod yn aml yn meddwl bod y rhyw arall yn swnllyd ac yn ddiflas.

Dywedodd llawer o'r plant eu bod yn poeni am **fwlio** – mae hwn yn ofn cyffredin wrth symud i ysgol uwchradd ond dywedodd rhai fod bechgyn yn fwy tebygol o fwlio, ac roedd un yn meddwl tybed a fyddai'n fwy o broblem pe bai'r ysgolion yn rhai cymysg a mwy o bobl ifanc yn mynd yno.

Roedd **teulu** yn dylanwadu ar y ffordd roeddent yn teimlo am y syniad o ysgolion cymysg. I rai, roedd dilyn ôl troed brodyr, chwirydd, cefndryd neu gyfnitherod, a bod gyda hwy, yn gwneud iddynt deimlo'n gyffrous ac yn fwy diogel; roedd eraill yn bendant nad oeddent eisiau hyn, felly roedd y safbwyntiau hyn yn dylanwadu arnynt. Cafwyd sylwadau hefyd

ynglŷn â'r ffaith y byddai'r ffordd roedd eu rhieni'n teimlo am y cwestiwn un rhyw/cydaddysgol yn effeithio ar ble byddent yn mynd neu ble roeddent eisiau mynd.

Er bod gan lawer ohonynt safbwyntiau cymysg iawn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r ysgolion fod yn ysgolion cymysg ai peidio roedd nifer sylweddol o'r plant yn hollol glir ynglŷn â'u teimladau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhesymau a roddwyd wedi'u trafod yn barod, ond mae'n werth cyfeirio at y **teimladau cryf** a oedd gan rai o'r plant ynglŷn â beth roeddent ei eisiau. Dywedodd rhai o'r plant a oedd yn gryf o blaid y cynnig mai un o'r prif resymau pam yr oeddent hwy a nifer o'u ffrindiau'n **mynd i ysgolion eraill** oedd oherwydd eu bod yn ysgolion addysg gymysg. Roedd eraill yn gobeithio'n fawr y gellid **cadw'r sefyllfa bresennol**, ond yn dweud y dylid gwella'r ysgolion. Mae'n rhywbeth y maent wedi paratoi eu hunain ar ei gyfer ac y maent yn edrych ymlaen ato. Mae'r cynigion i newid y system bresennol yn achosi rhwystredigaeth a phryder i ychydig o'r plant; mae rhai'n meddwl bod y syniad cyfan yn wastraffus ac yn dweud yn glir y dylid rhoi'r gorau iddo.

Mae **athrawon** yn cael dylanwad ar y ffordd yr oedd plant yn teimlo ynglŷn â symud i ysgol uwchradd yn gyffredinol a'r cynigion ar gyfer ysgolion cydaddysgol. Dywedasant eu bod yn mynd i weld colli eu hathrawon presennol ond eu bod yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r syniad o gael rhai newydd. Roeddent eisiau i'r athrawon hyn fod yn rhai da, a chefnogol, ac i egluro pethau'n dda. Roedd pryder ynglŷn â chyfnod cosb – rhywbeth na fydd ganddynt brofiad blaenorol ohono – ac nid oeddent eisiau i'r athrawon fod yn flin neu'n rhy lym.

Er bod llawer o'r plant yn cefnogi'r cynlluniau ac yn teimlo'n gyffrous amdanynt roedd pryder y gallai'r cynlluniau **amharu** arnynt mewn gwahanol ffyrdd. Fel y nodwyd yn gynharach, byddent eisiau osgoi'r posibilrwydd o gael eu **gwahanu oddi wrth ffrindiau** roeddent wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn neu ddwy cyn hynny. Dywedodd rhai pe bai'n rhaid iddynt newid ysgol yna byddai fel bod yn newydd eto a **dechrau o'r newydd** – gorfod dod i adnabod adeilad, athrawon a chyfoedion newydd a dod yn gyfarwydd â rheolau newydd. Roedd ychydig yn meddwl y byddai hyn yn gyffrous, ond roedd eraill yn meddwl y byddai'n bur anodd ac y gallai achosi pryder. Mynegwyd llawer o bryderon ynglŷn â sut y gallai **sŵn gwaith adeiladu** effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio ac ar ansawdd eu gwaith a'u dysgu, ond derbynnid yn gyffredinol ei bod yn bosibl y byddai angen i hyn ddigwydd, a mynegodd ychydig o blant bryder ynglŷn â **chyflwr a diogelwch** adeilad presennol Ysgol Gyfun y Barri.

Rhannodd y plant eu syniadau ynglŷn â sut y dylai'r ysgolion edrych. Awgrymodd nifer y gellid gwneud yr ysgolion fel yr oeddent **yn well**, neu wneud un ysgol fawr. Roedd nifer o blant eraill yn awyddus i gefnogi'r syniad o ysgolion newydd a gwell fel a gynigid yn y cynlluniau. Beth bynnag fydd yn digwydd roedd cytundeb at ei gilydd y byddai adeiladau **modern, â digon o le** yn cael eu croesawu.

Cafwyd llawer o syniadau ynglŷn â pha **adnoddau** y dylai'r ysgolion eu cael, yn enwedig wrth siarad am yr **ysgol ddelfrydol**.

Roedd **cyfleusterau chwaraeon** yn gais anhygoel o boblogaidd, yn enwedig **caeau i chwarae pêl-droed** a **phwll nofio** da. Roedd ystyriaeth ofalus i **du mewn ysgolion** hefyd yn bwysig iawn, gan gynnwys ardaloedd dysgu anffurfiol, megis llyfrgelloedd ac ystafelloedd archwilio,

ac ar gyfer ymlacio pan nad oedd hi'n amser dosbarth. Dylai fod yn lle dymunol i fod ynddo bob amser.

Mae ansawdd **y profiad dysgu** yn bwysig wrth gwrs. Mae cael y **dechnoleg** ddiweddaraf, **gwersi sy'n ennyn diddordeb** a **phynciau** yn cael eu cefnogi â digon o adnoddau yn allweddol ar gyfer hyn.

Roedd **gweithgareddau allgyrsiol** yn cael eu hystyried yn bwysig iawn gan eu bod yn helpu i wneud ysgol dda. Dylid cael amrywiaeth eang o **glybiau** a digon o **dripiâu** ysgol cyffrous.

Dylid cael lleoedd da **y tu allan** (yn ogystal â'r cyfleusterau chwaraeon) a phethau i'w gwneud yn ystod amser egwyl. Roedd cryn dipyn yn meddwl y byddai cael **anifeiliaid** ar y safle'n syniad da.

Byddai amrywiaeth o **fwydydd** yn cael ei werthfawrogi. Yn ddelfrydol, byddai'r bwyd am ddim weithiau.


Roedd **hunaniaeth** yr ysgol a'r disgyblion yn bwysig, yn enwedig drwy ddewis yr **enw** iawn a thrwy gael **gwsg ysgol wedi'i dewis yn ddoeth** – un wedi'i chynllunio'n dda, â lliwiau dymunol ac wedi'i gwneud o ddeunydd da. **Byddai rhai'n hoffi cael hyblygrwydd ynglŷn ag agwedd ar y wisg ysgol** neu gael diwrnodau heb wisg ysgol.

Roedd **ansicrwydd** ymhlith rhai o'r plant ynglŷn â beth allai ddigwydd. Roedd rhai'n poeni ym mha ysgol y byddent yn cael lle, a phe bai'r cynlluniau'n effeithio arnynt, a fyddent yn aros yno ynteu'n symud. Roeddent yn deall y gallent weld cyfuniad o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol pe bai'r cynlluniau'n mynd yn eu blaenau, ac roedd ychydig yn poeni na fyddent yn hapus. Roedd rhywfaint o sinigiaeth hefyd a fyddai'r cynlluniau'n mynd yn eu blaenau byth, a phe baent, a fyddai hynny'n gamgymeriad.

Roedd **lles disgyblion** yn elfen gudd bwysig drwy gydol yr ymgynghoriad – siaradodd y plant am fwlio, cyfeillgarwch, diogelwch, yr amgylchedd dysgu a materion eraill a allai effeithio ar hyn. Dywedodd ychydig o'r plant yn blaen eu bod yn gobeithio pan fyddent yn mynd i'r ysgol uwchradd, yn enwedig pe bai'r cynlluniau'n effeithio arnynt, y byddai'n lle da i fod ac y byddai pawb yn hapus yno.

Ydych chi'n gwybod i ba ysgol uwchradd y byddwch yn mynd?

Ydw: 36 Nac ydw: 5




■ Ydw ■ Nac ydw

Ydych chi'n gwybod i ba ysgol uwchradd y byddwch yn mynd?

Os ydych, i ba un?

I ba ysgol uwchradd y byddwch yn mynd?



■ Bryn Hafren ■ Ysgol Gyfun y Barri ■ Syr Richard Gwyn ■ Esgob Llandaf ■ Stanwell ■ St Cyres

Roedd y rhan fwyaf o'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ym mlynnyddoedd 5 neu 6 yn yr ysgol gynradd ac, o ganlyniad, wedi dechrau meddwl i ble y byddent yn mynd. O'r 36 a oedd yn gwybod i ble y byddent yn mynd, dywedodd eu hanner y byddent yn mynd naill ai i Ysgol Bryn Hafren neu i Ysgol Gyfun y Barri. Enwodd y gweddill ysgolion a oedd mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg, neu ysgolion sydd yng Nghaerdydd. Mae rhai o'r rhain yn ysgolion ffydd. Ni wnaethom ofyn yn benodol pam roeddent yn dewis mynd i'r ysgolion

eraill hyn, ond roedd sylwadau drwy gydol yr ymgynghoriad yn awgrymu bod a wnelo hyn yn rhannol o leiaf ag enw da a/neu bod yr ysgolion eraill yn ysgolion cydaddysgol.


'Mae rhai pobl eisiau mynd i ysgolion eraill oherwydd eu bod yn ysgolion cymysg'

'Ar hyn o bryd rydw i a llawer o blant eraill eisiau mynd i ysgol wahanol gan nad ydyn nhw'n ysgolion cymysg – mae pob bachgen a merch yn gallu gweithio gyda'i gilydd a bod yn ffrindiau fel mewn bywyd GO IAWN'

'Does gan Ysgol Bechgyn y Barri ddim enw da iawn – gallai merched newid hynny, rhoi enw gwell iddi yna byddai mwy o bobl eisiau ymuno.'

'Rwy'n hoffi fy ffrindiau a byddaf yn eu colli pan fyddwn yn mynd i ysgolion cyfun gwahanol'

Ydych chi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol uwchradd?



Roeddem yn meddwl bod hwn yn gwestiwn pwysig i'w ofyn er mwyn canfod sut roedd y plant yn teimlo ynglŷn â symud i ysgol uwchradd yn gyffredinol, heb ystyried unrhyw newidiadau.

Mae ychydig yn fwy na hanner y plant yn bendant yn edrych ymlaen i fynd, ond mae'n amlwg bod llawer o deimladau cymysg hefyd. Mae rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau – roeddent yn siarad am gael mwy o annibyniaeth a bod eisiau gwaith mwy heriol a diddorol i'w wneud yn yr ysgol. Mae llawer o gyffro hefyd ynglŷn â chyfarfod ffrindiau ac athrawon newydd.

Mae'r rhesymau dros beidio â theimlo mor hapus ynglŷn â'r syniad yn adlewyrchu ochr arall themâu tebyg – mae rhai'n teimlo nad ydynt yn barod i fynd, ac yn poeni am swm a lefel y

gwaith y bydd yn rhaid iddynt ei wneud, am yr adeiladau dieithr a'u maint, ac yn poeni'n fawr iawn y byddant yn colli ffrindiau ac athrawon sy'n gymaint o ran o'u bywydau nawr.

Roedd teimladau cymysg hefyd ynglŷn â'r cwestiwn a fyddent yn yr un ysgol â brodyr a chwirydd ai peidio, gan ddibynnu llawer i ba raddau roeddent yn gallu cyd-dynnu â hwy.

'Mae'n arwydd ein bod yn tyfu lan'

'Edrych ymlaen, dechrau blino ar yr ysgol gynradd'

'Cael mynd allan ar fy mhen fy hun o'r diwedd'

'Dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n barod ar gyfer yr ysgol gyfun'

'Dydw i ddim eisiau tyfu lan'

'Cael mwy ohono e.e. arbrofion gwyddonol, mwy o weithgareddau'

'Cael dewis pynciau'

'Rwy'n edrych ymlaen at y salon a'r gampfa a phopeth arall'

'Pan fyddwch chi'n gorffen cewch fynd i'r coleg/prifysgol'

'Dydw i ddim eisiau gadael fy ysgol gynradd ond rydw i eisiau gwneud mathemateg anos'

'Mae gen i ofn na fydda i'n gallu gwneud popeth'

'Bydd fy ngwaith i gyd yn mynd yn uwch, yn anos ac yn fwy.'

'Mae yna brofion anodd iawn'

'Gweld ffrindiau o ysgolion eraill'

'Cyfarfod pobl newydd'

'Rwy'n adnabod cryn dipyn o bobl sy'n mynd ac rwy'n edrych ymlaen i fynd gyda nhw, yn enwedig fy ffrindiau da'

'Byddaf yn colli fy ffrindiau'

'Byddwch gyda phobl dydych chi ddim yn eu hadnabod'

'Rwy'n hoffi fy ffrindiau a byddaf yn eu colli pan fyddwn yn mynd i ysgolion cyfun gwahanol'

'Byddaf yn gweld colli Miss'

'Bydd mwy o athrawon'

'Mwy o'r athrawon yn ddyfynion'

'Mae'n dibynnu pa mor llym yw'r athrawon'

'Gallech chi fynd ar goll – ysgol fawr'

'Ofn bwllis, os oes yna rai'

'Dydw i ddim eisiau gweld fy mrawd (ym mlwyddyn 8) dydw i ddim yn ei hoffi'

Sut mae eich 'Aelod Ychwanegol o'r Dosbarth' yn teimlo ynglŷn â mynd i Ysgol Gyfun y Barri neu Ysgol Bryn Hafren?

Roedd y dull a ddefnyddiasom ar gyfer hyn mewn gwirionedd yn gofyn iddynt ddychmygu sut y gallai rhywun arall fod yn teimlo ynglŷn â mynd i un o'r ysgolion uwchradd. Mae hyn a) yn caniatáu iddynt ddweud pethau y byddent o bosibl yn teimlo'n rhy swil i'w rhannu amdanynt hwy eu hunain a b) yn helpu'r rhai sy'n mynd i rywle arall i feddwl sut y gallai rhywun arall fod yn teimlo. Roedd y pethau a ddywedwyd ar ran yr aelodau ychwanegol o'r dosbarth yn ymhelaethu ar y sylwadau a wnaethpwyd pan ddywedasant wrthym a oeddent hwy eu hunain yn edrych ymlaen i symud ai peidio. Disgrifiwyd cymysgedd o deimladau; defnyddiwyd y geiriau 'cyffrous', 'hapus', 'poeni', 'ofn' a 'nerfus' droeon, ac roedd bron bob un o'r cymeriadau roeddent wedi eu dyfeisio'n profi tua'r un faint o bob un ohonynt. Roedd y rhesymau dros yr emosiynau hyn yn debyg iawn ar y cyfan i'r rhai a roddwyd ar eu cyfer hwy eu hunain; cyfeillgarwch yn newid, ysgolion mwy a phoeni am fwlio, ond roedd rhai gwahaniaethau yn seiliedig ar y ffaith ein bod wedi dweud y byddai'r cymeriadau yn bendant yn mynd i Ysgol Bryn Hafren neu Ysgol Gyfun y Barri. Golygai hyn fod gennym fwy o sylwadau am y ffaith fod yr ysgolion yn ysgolion un rhyw ac a oedd hyn yn beth da ai peidio, ac yn bennaf fod rhai o'r cymeriadau benywaidd yn hapus na fyddai bechgyn yn eu hysgol.

'Nawr – Mae'n teimlo'n gyffrous ac yn edrych ymlaen i gyfarfod ffrindiau newydd oherwydd does ganddo ddim ffrindiau nawr.'

'Mae'n hapus, cyffrous, iawn, poeni, dim ots ganddo, nerfus oherwydd ei fod yn mynd i ysgol newydd gydag athrawon newydd a ffrindiau newydd!!'

'yn drist, oherwydd ei bod yn gadael yr ysgol gynradd, yn ofnus oherwydd ei bod yn mynd i le mwy ac yn gofidio oherwydd bod ei ffrindiau'n mynd i ysgol wahanol.'

'Mae ganddi ofn y bydd yna fwlio, mae'n drist oherwydd y bydd yn gadael ffrindiau ond mae'n gyffrous.'

'Mae'n teimlo'n gyffrous ac yn poeni oherwydd bod yna lawer o risiau yn yr ysgol newydd a does yna ddim bechgyn!!! IE !!!'


'Mae'n hapus oherwydd bod ei ffrindiau'n mynd, yn ofnus oherwydd ei bod yn ysgol fwy, yn gyffrous, wrth ei bodd, does yna ddim bwlis (bechgyn)'

'Mae'n teimlo'n gyffrous oherwydd bod ei frodyr yno. 'Mae'n teimlo'n gyffrous ac yn hyderus oherwydd gall wneud mwy o ffrindiau ond bydd yn colli'r merched.'

Ydy ysgolion cymysg (cydaddysgol) yn syniad da?

Ydy ysgolion cydaddysgol yn syniad da?

Ydynt: 13 Nac ydynt: 11 Efallai:17



■ Ydynt ■ Nac ydynt ■ Efallai

Mae'r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn wedi'u dosbarthu'n weddol gyfartal. Mae'r grŵp mwyaf heb benderfynu – rhai oherwydd nad oeddent yn gwybod, ond y rhan fwyaf oherwydd y gallent weld cyfuniad o bwyntiau cadarnhaol a negyddol posibl. Fel y byddech yn disgwyl, roedd nifer o'r rhai a oedd â barn bendant yn teimlo'n gryf iawn ynglŷn â'r mater hwn, pa un a oeddent o blaid neu yn erbyn addysg gymysg.

Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd a roddwyd dros gefnogi ysgolion cymysg yw mai dyma beth maent wedi arfer ag ef yn yr ysgol gynradd, a dyna sut mae'r byd yn gweithio at ei gilydd y tu allan i'r ysgol; dyma a ddywedodd nifer sylweddol o'r rhai a oedd yn cytuno â'r syniad o ysgolion cydaddysgol. Dywedodd nifer o'r merched eu bod yn aml yn mwynhau bod yng nghwmni bechgyn yn fwy nag yr oeddent yn mwynhau bod yng nghwmni merched felly gallai ysgol un rhyw deimlo'n anodd iddynt hwy, a dywedodd rhai bechgyn yn ogystal â merched y byddent yn colli cael y rhyw arall o gwmpas. Awgrymodd ychydig mai un o'r rhesymau pam yr oeddent hwy a disgyblion eraill yn dewis ysgolion gwahanol oedd oherwydd y byddai'n well ganddynt fynd i rywle sy'n gydaddysgol.

'Mae rhai pobl eisiau mynd i ysgolion eraill oherwydd eu bod yn ysgolion cymysg'

'Rydym wedi bod mewn ysgolion cymysg drwy gydol y cyfnod cynradd, rydym wedi arfer bod gyda'n gilydd'

'Mae'n fwy naturiol – dyna sut y dylai fod bob amser'

'Os ydych yn ferch efallai y byddech yn teimlo'n fwy cyfforddus gyda bechgyn ac wrth dreulio amser gyda nhw'

'Mae angen yr un faint o fechgyn a merched er mwyn i chi allu dewis gyda phwy rydych chi eisiau bod'

Ar y llaw arall, roedd rhai'n credu y gallai ysgol uwchradd fod yn gyfle i gael seibiant rhag gorfod treulio amser gyda'r rhyw arall, a bod pobl ifanc yn y Barri wedi arfer â'r model un rhyw. Mae'n rhywbeth maen nhw wedi cael eu paratoi ar ei gyfer ac maen nhw'n edrych ymlaen ato. Dywedodd rhai o'r plant, yn fechgyn a merched fel ei gilydd, y byddai'n well ganddynt weld pethau'n aros fel y maent, gyda rhai gwelliannau'n cael eu gwneud i'r adeiladau efallai er mwyn gwella cyflwr adeiladau Ysgol Gyfun y Barri.

'Rydw i eisiau aros yn y Barri ac iddo fod yn well.'

'Mae'n haws cadw pethau fel y maen nhw'

'Pam na allan nhw ei adeiladu'n well?'

'Maen nhw wedi arfer bod ar eu pen eu hunain'

'Rydych chi'n cael bod gyda phobl o'r un rhyw â chi a dydy'r lleill ddim o gwmpas i fynd ar eich nerfau'

'Rydyn ni wedi treulio'r blynyddoedd cynradd gyda nhw ac mae hynny'n ddigon'

Tynnwyd sylw hefyd at stereoteipiau bechgyn a merched, yn bennaf fel rhesymau dros gadw'r ysgolion yn ysgolion un rhyw; yn y bôn, bod bechgyn a merched yn aml yn gweld ei gilydd yn ddiflas ac yn swllyd.

'Dydw i ddim yn hoffi bod gyda merched yn y cynradd, maen nhw'n ddiflas ac yn swllyd'

'Mae bechgyn yn gas'

'Maen nhw'n sgrechian ac yn rhoi dolur i'ch clustiau'

'Mae cymysg yn fwy digynnwrf ond yn fwy swllyd'

Roedd barn gymysg ynglŷn â sut y gallai bod mewn ysgolion un rhyw neu mewn ysgolion cymysg effeithio ar ddysgu, gyda niferoedd tebyg yn dadlau dros y posibilrwydd bod y naill neu'r llall yn well.

'Mae bechgyn yn gweithio'n well mewn ysgolion cymysg'

'Mae merched yn gweithio'n well ar eu pen eu hunain'

'Weithiau maen nhw'n cael canlyniadau gwell os ydyn nhw'n gweithio gyda'i gilydd'

'Gall disgyblion sydd ar ei hôl hi neu ar y blaen fod yn y grwpiau lefel priodol'

'Dydy bechgyn a merched ddim yn chwarae gyda'i gilydd ond maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd'

Rhai o'r rhesymau a roddwyd dros gadw'r ysgolion yn ysgolion un rhyw oedd pryderon ynglŷn ag ymladd a dadlau. Mae tuedd i feddwl bod bechgyn yn fwy tebygol o ymwneud â bwlio ac ymladd, weithiau gyda merched neu dros ferched.

'Bechgyn yn ymladd dros ferched'

'Dydy merched ddim yn ymladd, mae bechgyn yn gwneud'

'Byddai bechgyn yn dechrau taro merched'

'Efallai y byddai bwlio'

Yn olaf, ar gyfer y cwestiwn hwn, roedd pryder a fyddai'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn golygu na fyddent yn yr ysgol gyda brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu.

'Byddaf mewn ysgol wahanol i'm chwaer. Byddai hi'n gallu sefyll i fyny drosof i.'

'Caf weld fy mrawd a'm cefnder'

Sut fyddai aelodau ychwanegol y dosbarth yn teimlo pe baent yn Ysgol Gyfun y Barri neu Ysgol Bryn Hafren yn ystod y newidiadau?

Eglurasom y byddai dalgylchoedd newydd yn cael eu cyflwyno pe bai'r cynlluniau'n mynd yn eu blaenau, ond y byddai'r plant yn gallu dweud i ba safle y byddai'n well ganddynt fynd. Yna gofynasom iddynt feddwl sut y byddai eu 'haelod ychwanegol o'r dosbarth' yn teimlo pe bai hyn yn effeithio arno ef.

Roedd eu meddyliau'n ymwneud i raddau helaeth â'r elfen o 'ddechrau newydd'; roedd hyn yn gyffrous i rai, ond yn ddiflas ac yn codi ofn ar eraill. Un o'r prif faterion a ddisgrifiwyd ganddynt oedd sut y byddai'n rhaid i gyfeillgarwch newid o bosibl – y byddai eu cymeriadau'n gorfod treulio dwy flynedd yn dod i adnabod pobl ac y gallent hwy neu eu ffrindiau fod yn symud i ysgol arall nawr. Roedd hyn yn beth rhwystredig iawn i lawer, ond roedd ychydig yn hoffi'r syniad o gyfarfod ffrindiau newydd a hen ffrindiau, gan gynnwys rhai o'r rhyw arall.

Ar wahân i amharu ar gyfeillgarwch roedd teimlad cyffredinol o fod yn newydd eto ac o fynd yn ôl at yr anghyfarwydd; athrawon newydd, adeilad newydd a neb yn gwybod ei ffordd o gwmpas.

Mater pwysig arall a oedd yn effeithio ar sut y gallent fod yn teimlo oedd y byddai'r ysgolion newydd yn ysgolion cymysg nawr. Roedd ymateb cymysg i hyn. Roedd rhai'n hapus oherwydd gallent weld hen ffrindiau, neu fod gydag aelodau o'r teulu. Roedd rhai'n meddwl na fyddai'n ddrwg iawn oherwydd o leiaf efallai y byddai rhywun yn gweld ei gariad yno. Roedd eraill yn anhapus oherwydd eu bod eisiau i'r ysgolion aros yn ysgolion un rhyw. Cafwyd un sylw ynglŷn â'r ffaith y gallai safle Ysgol Gyfun y Barri fod yn fwy poblogaidd pe bai merched yn mynd yno.

'Mae'n flin oherwydd byddai'n rhaid i chi wneud ffrindiau newydd eto, a dysgu eich ffordd o

gwmpas yr ysgol eto a chael athrawon gwahanol!

'Mae hi braidd yn flin. Mae'n annheg oherwydd rydych chi wedi treulio dwy flynedd yn gwneud ffrindiau ac rydych chi'n gorfod newid nawr'

'Mae'n bryderus, yn nerfus, yn gyffrous oherwydd dechrau newydd.'

'Nerfus, oherwydd na fydd yn gwybod ei ffordd o gwmpas yr ysgol; hapus, oherwydd y cyfle i gyfarfod ffrindiau ac athrawon newydd; trist, oherwydd y gallai olygu bod rhaid gadael ffrindiau ar ôl.'

'Mae'n symud oherwydd bod ei ffrindiau'n symud hefyd'

'Mae hi'n poeni na fydd hi byth yn gweld ei ffrindiau eto a dydy hi ddim yn gwybod sut rai ydy pobl eraill'

'Bydd yn hapus oherwydd mae'n ysgol newydd sbon, bydd pobl newydd yno a bydd yn adnabod llawer o'i ffrindiau.'

'Meddwl ei fod yn dda, gallai fod yno gyda'i brodyr a'i chwaer'


'Trist oherwydd roedd hi eisiau bod gyda'r bechgyn.'

'Pe bai'r rhan fwyaf o'r merched yn mynd i ysgol y bechgyn byddai'r ysgol yn fwy poblogaidd.'

'Mae'n flin oherwydd bod merched yn dod i'w ysgol ef, ond efallai y byddai rhai merched y mae'n eu hadnabod #ei gariad.'

Ydy'r cynlluniau'n syniad da?

Ydy'r cynlluniau'n syniad da?
Ydynt: 17 Nac ydynt: 13 Efallai: 11



Y cwestiwn mawr wedyn, ar ôl i ni archwilio'r cynlluniau, yw a yw'r plant yn meddwl bod y cynlluniau'n syniad da at ei gilydd. Roedd mwy o blant o blaid y cynlluniau yn sicr, ond roedd

gan nifer ohonynt amheuson o hyd ac roedd llawer o'r disgyblion yn dal yn bendant yn erbyn y cynlluniau.

Unwaith eto, mynegodd y disgyblion deimladau cymysg ynglŷn â'r cwestiwn a yw ysgol gydaddysgol yn syniad da ai peidio. Mae hwn yn fater pwysig i'r rhai sydd o blaid y cynlluniau ac i'r rhai sydd yn eu herbyn. Roedd rhai yn bendant y dylid cadw pethau fel y maent, ond roedd llawer yn credu bod ysgolion cymysg yn beth cadarnhaol yn y pen draw oherwydd bod modd bod yn ffrindiau gyda phlant o'r rhyw arall a bod cydweithio'n beth da.

'Mae'n rhoi cyfle i chi fod gyda'r rhyw arall – gallwch gydweithio, yn enwedig os ydych chi ddim yn gallu cyd-dynnu gyda merched eraill.'

'Gallwch fod gyda'ch ffrindiau gwrywaidd o'r cynradd'

'Os ydych chi eisiau (cymysg), gallwch fynd i ysgol arall – mae dewis nawr'

'Bydd yn cymryd amser i addasu i'r newid ond bydd bechgyn a merched yn cael cefnogi ei gilydd'

'Bydd yn fwy swnllyd, mae bechgyn yn ddrwg ac yn gwneud mwy o sŵn'

'Byddai'n anodd bod ar wahân i'm cariad'

'Yn enwedig i tombois sydd ddim yn hoffi pethau merched o gwbl'

'Mae'r plant yn hapus nawr'

'Dydw i ddim eisiau i bethau newid, cadwch bethau fel y maen nhw, un ysgol i fechgyn ac un ysgol i ferched'

'Newid mawr – ysgol fwy, ffrindiau newydd, nid bechgyn yn unig a merched yn unig'

Cydnabyddir bod angen rhywfaint o waith atgyweirio yn y ddwy ysgol – yn enwedig Ysgol Gyfun y Barri. Dywedodd llawer fod y syniad o fynd i ysgol fodern, newydd sbon yn un cyffrous ond awgrymodd rhai y gellid adnewyddu'r ysgolion a chadw'r system addysg un rhyw.

'Os ydy Ysgol Bechgyn y Barri mewn cyflwr gwael gallai ddod i lawr ar ein pennau, gallai fod yn beryglus.'

'Adeiladau mwy, a gwell'

'Credwn y byddai gwneud yr ysgolion yn fwy modern yn syniad da'

'Byddai ysgol newydd yn dda o ran addysg a thechnoleg – llawer o bethau newydd'

'Byddent yn gallu gwneud yr ysgolion yn lleoedd brafiach'

'Yn lle ysgolion ar wahân, dylent wario'r arian i gyd ar un ysgol gydag ardaloedd ar wahân – ei rhannu'n 4 tŷ o tua 500, grŵp A1 – A5'

Cyfeiriwyd at enw da Ysgol Gyfun y Barri ychydig o weithiau, ac awgrymwyd y byddai'n fwy llwyddiannus pe bai'n ysgol gydaddysgol ac y byddai mwy o bobl eisiau mynd yno. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus hefyd i'r ffaith y bydd gan yr ysgolion enwau newydd sbon os bydd y cynlluniau'n mynd yn eu blaenau, ac y gallai hyn effeithio ar nifer y disgyblion sydd eisiau mynd yno.

'Does gan Ysgol Bechgyn y Barri ddim enw da iawn – gallai merched newid hynny, rhoi enw gwell iddi yna byddai mwy o bobl eisiau ymuno.'

'Byddai mwy'n mynd yno pe bai'n ysgol gymysg – bydd pobl rydych yn eu hadnabod yno a phethau rydych wedi arfer â nhw'

'Gallai'r enw newydd fod yn dda iawn'

'Os byddwch yn newid yr enwau bydd pawb eisiau mynd yno ac allwch chi ddim dal i newid o un i'r llall'

'Newid yr enw ond dim byd gwirion neu rhy wahanol – fel bod pobl yn gwybod am beth rydych chi'n siarad – bydd rhai pobl yn defnyddio'r hen enwau p'un bynnag oherwydd eu bod yn yr un lle'

Cafwyd adborth cyffredinol am yr amharu cyffredinol ar eu haddysg tra roedd y newidiadau'n digwydd. Roedd rhywfaint o hyn yn ymwneud ag agwedd ymarferol gwaith yn cael ei wneud o'u cwmpas tra maent yn yr ysgol, yn enwedig y sŵn posibl. Roedd mwy o sylwadau ynglŷn â sut y gallai gorfod newid ysgol effeithio ar gyfeillgarwch, ac unwaith eto ynglŷn â themlo'n newydd mewn lle anghyfarwydd â rheolau gwahanol.

'Byddwn yn gwneud ffrindiau mewn dwy flynedd ac yna'n cael ein gwahanu'

'Bydd rheolau gwahanol'

'Sut allwch chi weithio gyda'r holl sŵn?'

'Y gwaith fydd yn cael ei wneud mewn ysgolion newydd – gallai'r drilio fod yn ddiflas'

'Erbyn i ni gyrraedd yno – bydd yn dal i newid'

Dywedodd rhai o'r plant nad oeddent yn meddwl y byddai'r newidiadau'n digwydd mewn gwirionedd – naill ai oherwydd eu bod yn gobeithio na fyddent yn digwydd neu oherwydd y

ffaith fod newid y system wedi cael ei drafod o'r blaen a bod dim wedi digwydd o ganlyniad i hynny. Mae ychydig o'r plant wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad blaenorol; eglurasom fod hyn oherwydd bod y cyngor yn gwrando ac yn ceisio cael pethau'n iawn.

'Maen nhw wedi bod yn dweud eu bod nhw'n mynd i wneud ers blynyddoedd a dydyn nhw ddim wedi gwneud'

'Fe wnaeth rhywun ddweud yn y noson agored na fyddai'n cael ei newid'

'Mae'n wastraff amser os ydyn nhw'n ei wneud am ddim rheswm'

Beth yw eich dymuniadau a'ch pryderon am y cynlluniau?

Rhoddasom gyfle i'r plant ysgrifennu eu dymuniadau a'u pryderon personol am ddyfodol eu haddysg uwchradd. Roedd llawer o'r rhain yn ategu'r hyn a oedd wedi'i ddweud yn gynharach yn y sesiynau.

Y thema fwyaf cyffredin oedd a ddylai'r ysgolion fod yn ysgolion cymysg.

Roedd tua chwarter y dymuniadau'n dweud yn glir iawn eu bod yn gobeithio y bydd yr ysgolion yn rhai cymysg. Eglurwyd hyn â rhesymau fel cyd-dynnu'n dda â bechgyn, adlewyrchu'r gymdeithas ehangach ac arwain at ddeilliannau cadarnhaol o ran canlyniadau. Unwaith eto awgrymwyd mai'r rheswm pam yr oedd llawer yn dewis mynd i ysgolion eraill oedd oherwydd eu bod yn ysgolion cydaddysgol. Roedd ychydig o bryderon hefyd ynglŷn â'r ffaith mai barn pobl nad ydynt yn ddisgyblion fydd yn penderfynu beth fydd yn digwydd.

'Ysgol gymysg i fechgyn a merched'

'Bod mewn ysgol gymysg oherwydd dydw i ddim yn gallu cyd-dynnu â'r merched felly rwy'n treulio amser gyda'r bechgyn. Os na fydd bechgyn yn fy ysgol uwchradd bydd yn achosi problem.'

'..oherwydd pan fyddwn yn cael gwaith byddwn yn gorfod gweithio gyda dynion felly erbyn hynny byddem wedi cael profiad'

'Cymysg = gwell canlyniadau'

'Ar hyn o bryd rydw i a llawer o blant eraill eisiau mynd i ysgol wahanol gan nad ydyn nhw'n ysgolion cymysg – mae pob bachgen a merch yn gallu gweithio gyda'i gilydd a bod yn ffrindiau fel mewn bywyd GO IAWN'

'Mae gen i ofn na fydd y cyhoedd yn ymateb yn dda ac na wnân nhw gymysgu'r ysgolion'

Ar y llaw arall roedd llawer o'r pryderon yn dangos na fyddai newid i ysgolion cydaddysgol yn cael ei groesawu. Dywedodd ychydig o'r plant eu bod yn teimlo'n eithaf cryf ynglŷn â hyn. Cafwyd nifer o awgrymiadau y dylai'r ysgolion aros fel y maent, ond â rhai gwelliannau, ac y byddai'r newid braidd yn ddibwrpas. Mae'n amlwg bod rhai o'r disgyblion y buom yn ymgynghori â hwy yn edrych ymlaen o ddifri i fod mewn ysgol un rhyw.

'(Rwy'n gobeithio) na fyddant yn cymysgu'

'I Ysgol Bechgyn y Barri aros fel y mae; (ond ei gwella)/Bryn Hafren i aros fel y mae oherwydd mae'n iawn fel y mae'

'Eu bod yn debygol o gymysgu a does dim llawer o bwrpas'

'Byddwn yn hoffi pe baent yn anghofio'r cwbl'

'Pam newid nawr, ydych chi ddim yn meddwl ei fod yn wastraff arian ac amser?'

'Trueni na fyddwn i'n bennaeth ar y cyngor'

'Fydd pobl ddim yn ymwybodol o rai sy'n perthyn i'r rhyw arall'

Cafwyd cryn dipyn o sylwadau yn rhannu pryderon ynglŷn â'r cwestiwn a fydd bechgyn a merched yn cyd-dynnu yn yr ysgol uwchradd a'r effaith y gallai hyn ei gael ar awyrgylch yr ysgol.

'Efallai na fyddai bechgyn a merched yn cyd-dynnu'

'Os rhywbeth mae bechgyn yn fy ngwneud i'n flin'

'Rhy brysur os bydd mwy o fechgyn nag o ferched'

Mae rhai yn poeni na fyddant yn gallu mynd i'r ysgol o'u dewis, yn enwedig os bydd y newidiadau'n mynd yn eu blaenau ac y byddant yn gorfod symud ar ôl cyrraedd yno. Roedd un sylw'n awgrymu bod o leiaf un person – a mwy efallai – yn teimlo'n bur bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai'n cael lle mewn ysgol wahanol h.y. un ar wahân i Ysgol Bryn Hafren neu Ysgol Gyfun y Barri.

'Efallai na fydd pawb yn cael lle yn yr ysgol maen nhw eisiau mynd iddi'

'Gorfod symud i Ysgol Bryn Hafren'

'Bod ysgol bechgyn y Barri yn cael ei dymchwel'

'Os na fyddwn ni'n cael lle mewn ysgolion eraill dydw i ddim yn gwybod beth wnawn ni'

Roedd cyfeillgarwch yn uchel iawn ar restr dymuniadau a phryderon y disgyblion. Roedd llawer o'r sylwadau hyn yn ymwneud â symud i ysgol uwchradd yn gyffredinol – gobeithio y byddai ganddynt ffrindiau, a meddwl y byddent yn mynd i gyfeiriadau gwahanol ac yn colli eu ffrindiau o'r ysgol gynradd gan na fyddant gyda'i gilydd mwyach. Roedd y gweddill yn meddwl am eu teimladau ynglŷn â'r newid yn yr ysgolion a hwythau wedi bod yno ers nifer o flynyddoedd a'r effaith ar gyfeillgarwch roeddent wedi ei ffurfio yn ystod y cyfnod hwnnw.

'Y bydd gennyf lawer o ffrindiau ac y byddaf yn boblogaidd'

'Gallech gael eich gwahanu oddi wrth eich ffrindiau'

'Dydw i ddim yn mynd i fod gyda fy ffrindiau o'r ysgol gynradd; (fyddwn ni) ddim mor agos ag yr oedden ni'n arfer bod'

Y byddem yn gwneud ffrindiau yn y ddwy flynedd ac yna bydd yn rhaid i chi wahanu

Beth os na fyddaf yn gwneud ffrindiau newydd?

Roedd teulu'n dylanwadu ar y ffordd yr oedd rhai o'r plant yn teimlo ynglŷn â mynd i ysgol uwchradd. Gallai hyn ddibynnu ar y graddau yr oeddent yn cyd-dynnu â'u brodyr a'u chwiorydd neu deulu estynedig a fyddai yn yr un ysgol, a hefyd ar farn eu rhieni. Roedd rhai o'r sylwadau'n nodi os yw rhieni'n awyddus i'w plentyn fynd i ysgol un rhyw y gallai hynny effeithio ar ble mae'r disgybl yn mynd.

'Efallai y bydd rhai rhieni eisiau i'w mab fynd i ysgol bechgyn yn unig a'u merch i ysgol merched yn unig'

'Mae'n rhaid i mi weld fy mrawd oherwydd mae'n ddiflas iawn'

'Efallai na fydd yn gymysg felly bod ar wahân i'm chwaer'

Rhannwyd nifer o obeithion ac ofnau ynglŷn â lles disgyblion yn yr ysgolion. Yn fwyaf arbennig, mae bwlio yn fater y mae plant yn poeni amdano. Mae hwn yn rhywbeth y maent yn poeni ei fod yn digwydd yn gyffredinol mewn ysgolion uwchradd, a hefyd yn rhywbeth sy'n fwy tebygol o ddigwydd os ydych yn newid dynameg Ysgol Bryn Hafren neu Ysgol Gyfun y Barri drwy eu gwneud yn ysgolion cymysg ac yn brysurach nag yr arferent fod.

Cafwyd cryn dipyn o sylwadau yn ymwneud â phobl yn hoffi ac yn mwynhau ysgol gyfun neu ddim yn ei hoffi. Roedd rhai o'r rhain yn ymwneud ag eisiau i bawb fod yn hapus i fynd yno a'i fod yn lle da i fod. I rai efallai fod hyn mewn ymateb i glywed pryderon eraill, i rai roedd yn bryder mwy personol, yn gysylltiedig o bosibl â phryderon tebyg bod yr ysgol uwchradd yn anghyfarwydd iddynt. Roedd yr elfen 'anghyfarwydd' hon yn codi droeon, yn enwedig wrth sôn am wybod eich ffordd o gwmpas, ymdopi â'r llwyth gwaith a disgyblaeth.

Mae'r math o athrawon yn sicr yn fater sy'n cyfrannu tuag at syniadau pobl ynglŷn â'r cwestiwn a fyddant yn mwynhau'r ysgol ai peidio – mae dymunol yn dda, dyw llym ddim yn dda!

'Bod pawb yn hapus i fynd a ddim yn teimlo'n ddigalon, yn teimlo'n hapus eu bod yno'

'Efallai na fydd pobl yn hoffi'r ysgol'

'Dydw i ddim eisiau mynd mewn gwirionedd'

'Bydd bwllis yno'

'Bwllio oherwydd nad ydyn nhw wedi arfer â chynifer o blant'

'Y byddaf yn gorfod mynd i'r cyfnod cosb ar y diwrnod cyntaf'

'Mae gen i ofn y byddaf yn anghofio popeth'

'Fydd yna ddim llawer o amser i astudio, byddaf yn poeni'

'Os na fyddaf yn gwybod ble mae popeth'

'Cael athrawes dda/neis'

'Os byddwn yn cael athro/athrawon llym'

Mae gan y disgyblion obeithion ar gyfer ethos yr ysgol a'r hyn y mae'n ei gynnig. Maent eisiau iddi fod yn ysgol dda ag adnoddau da – naill ai drwy wella'r rhai presennol neu â rhai newydd a fyddai'n ychwanegu gwerth i'r ysgol. Cafwyd awgrymiadau hefyd ynglŷn â'r cwricwlwm a strwythur yr ysgol.

Roedd pryder hefyd ynglŷn â chyflwr Ysgol Gyfun y Barri.

'Bwrdd deifio, oherwydd byddai pawb yn meddwl ei bod yn boblogaidd wedyn'

'Y byddent yn gadael i flynyddoedd 7 ac 8 ddefnyddio'r salon'

'Technoleg gyfredol dda'

'Mae'n ysgol dda'

'Ei gwneud yn ysgol greadigol dda'

'(poeni) Eu bod nhw'n mynd i roi'r gorau i hanes a gwyddoniaeth'

'(poeni y bydd) Dau ddosbarth am flwyddyn'

'Ysgol newydd a braf'

'Os na fydd Ysgol Bechgyn y Barri yn cael ei hadnewyddu gallai ddod i lawr ar eu pennau'

Roedd gan rai disgyblion ddymuniadau a phryderon ynglŷn â hunaniaeth yr ysgol, ac ynglŷn â'r wisg ysgol a'r enw yn fwyaf arbennig. Mae'r ddau hyn yn cael eu hystyried yn bwysig iawn a gallai eu cael yn iawn wneud gwahaniaeth o ran pa mor atyniadol yw'r ysgol – hyd yn oed, yn ôl un person, pe bai newid yr enw'n gallu bod yn gamarweiniol ac yn golygu nad yw pobl yn gwybod am sgôr blaenorol yr ysgol y maent yn ei dewis!

'Cael enw tebyg fel bod pobl yn dod i arfer ag ef yn gynt'

'Gallai'r enw fod yn wirion'

'Enwau newydd i'r ysgolion – efallai na fydd pobl yn sylweddoli nad yw'r ysgol yn un dda iawn felly gallai fod yn ofnadwy'

'Gwisg ysgol bert' 'Gwisg ysgol afiach' 'Y bydd gwisg ysgol newydd yn Ysgol Bechgyn y Barri'

Roedd y plant yn deall nad yw cyflwr adeiladau'r ysgolion, yn enwedig Ysgol Gyfun y Barri, yn arbennig o dda a'i bod yn debygol y bydd gwaith yn cael ei wneud beth bynnag fydd yn digwydd. Er eu bod yn hoffi'r syniad o fynd i ysgol newydd sbon, cyfeiriodd rhai at yr aflonyddu y gallai hyn ei achosi a'r effaith ar eu haddysg, yn enwedig oherwydd y sŵn posibl.

Mae'r broses yn gyffredinol yn peri pryder i ychydig o blant – dywedodd un os nad yw'n digwydd bydd yr ymgynghoriad yn wastraff amser, a dywedodd un arall y bydd popeth yn digwydd pan nad ydyn nhw eisiau iddo ddigwydd.

'Ysgol newydd, a braf'

'Os na fydd Ysgol Bechgyn y Barri yn cael ei hadnewyddu gallai ddod i lawr ar eu pennau'

'Poeni y bydd fy ngwaith yn flêr oherwydd y drilio'

'Y bydd yn swnllyd i bobl sy'n ceisio gweithio ac astudio'

'Rwy'n poeni os na fydd yn digwydd y byddant yn gwastraffu amser ac yn gofyn eto'

'Y bydd yn digwydd, y bydd yn ofnadwy'

Mae'n bwysig cael hunaniaeth yr ysgol a'r disgyblion yn iawn. Gallai'r enw effeithio ar nifer y plant sy'n dewis mynd yno. Dywedwyd yn glir wrthym y bydd y wisg ysgol hefyd yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac y dylai fod yn un dda. Roedd syniadau ynglŷn â beth sy'n gwneud gwisg ysgol dda'n amrywio, ond roedd llawer yn cytuno bod y defnydd a chyfforddusrwydd yn bwysig a bod angen steil. Dywedodd cryn dipyn y dylai fod yn lliwgar, ond roedd ychydig yn meddwl mai du fyddai'n edrych orau. Dywedodd y rhan fwyaf y dylid cael gwisg ysgol ond roedd rhai eisiau rheolau mwy llym na'i gilydd, er enghraifft roedd rhai eisiau gallu addasu rhannau o'r wisg, cael hyblygrwydd ynglŷn ag esgidiau neu ddiwrnodau rheolaidd heb wisg ysgol.

'Byddai'n ysgol gymysg felly byddai'n ysgol sy'n cefnogi chwaraeon ac felly'n annog uchelgais.'

'Tripiâu ysgol anhygoel, gwisg ysgol ffasiynol, cymysg, technoleg fodern newydd, yr adnoddau iawn i gyd a chinio ysgol blasus, digonedd o le, cyfleusterau chwaraeon, defnyddio'r lle â phosteri ac arwyddion.'

Pa rai o syniadau eich grŵp chi yw eich hoff syniadau?

- Dim rheolau (16) Dim athrawon (5) Dim gwaith cartref (6)
- Gwisg ysgol ar gyfer tai e.e. Tân (4) Gwisg ysgol y merched – sodlau duon, sgert ddu, top gwyn (4)
- Digon o dechnoleg (8) Cyfrifiaduron (5)
- Dylunio a Thechnoleg (4)
- Cae pêl-droed a goliau (5)
- Pencampwriaethau badminton a thennis bwrdd (5)
- Pwll nofio a bwrdd deifio (8) Pwll nofio 100m (4) Byddai gan y cae chwarae delfrydol le dŵr yn cynnwys sleid dŵr a thrac rhedeg (4)
- Gwneud cacennau (4) Blasu siocled (3) Bwyd am ddim ar ddydd Gwener (3)
- Ystafell archwilio fel tai (3) Ystafell chwarae gemau (3) Llyfrgell i annog darllen (4) Toiledau da (3) Sinema (4)
- Pobl enwog yn mynd yno bob diwrnod (3)
- Clybiau gwahanol a gwell (6) Clybiau bechgyn a chlybiau merched (4)
- Cael tripiâu i wledydd eraill (4) Disgos ar wahanol adegau o'r flwyddyn (3)
- Tripiâu ysgol anhygoel, gwisg ysgol ffasiynol, cymysg, technoleg fodern newydd, yr adnoddau iawn i gyd a chinio ysgol blasus, digonedd o le, cyfleusterau chwaraeon, defnyddio'r lle â phosteri ac arwyddion (4)

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cynlluniau?

Roeddem yn holi'r plant a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynlluniau wrth inni fynd drwy'r sesiynau. Atebwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn ystod y sesiynau.

- Ble fydd yr ysgol newydd?

- Pam na allan nhw gadw pethau yr un fath?*
- Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i addasu (disgyblion)?
- Pam na wnân nhw newid Ysgol Bechgyn y Barri yn unig?
- Pam cael dwy ysgol ar wahân yn hytrach nag un ysgol fawr gydag adran is ac adran uwch?
- Beth fydd yn digwydd i ferched yn Ysgol Bryn Hafren fydd yn gorfod symud ar ôl 1 neu 2 flynedd i Ysgol Gyfun y Barri ac yn colli ffrindiau newydd?
- Fydd y gwaith adnewyddu'n digwydd yn ystod amser ysgol?
- Fydd blwyddyn 11 yn aros ble maen nhw?

Fyddech chi'n hoffi awgrymu enwau ar gyfer yr ysgolion newydd?

Ysgol Gyfun y Barri	Bryn Hafren
Barry Hafren	Saint Hafren
Only Barry Boys	Welsh Hafren
The Barry School	7 Stages
The Barry Comp	Barry Hafren
The New Barry	The Newest Barry
The Mixed School	The High Hafren
	The Mixed Comp

Atodiadau: Cofnod o'r Canlyniadau

Gwynt Mawr yn Chwythu...

Cadoxton a Palmerston 10

- Gwybod i ba ysgol gyfun y byddant yn mynd: 8
- SRG – 3, BH – 2, Ysgol Gyfun y Barri – 3, ? – 1

Y Stryd Fawr, y Rhws a Gladstone 12

- Gwybod i ba ysgol gyfun y byddant yn mynd: 11
- SRG – 4, Ysgol Gyfun y Barri – 3, BH – 2, LI – 1

Gwenfo, Parc Jenner, 8

- Gwybod i ba ysgol gyfun y byddant yn mynd: 8
- Ysgol Gyfun y Barri – 3, BH – 1, Esgob Llandaf – 3, Stanwell – 1

Ynys y Barri, Holton, Romilly 11

- Gwybod i ba ysgol gyfun y byddant yn mynd: 10
- St Cyres – 2, BH – 4, Stanwell – 2, SRG - 2

Aelodau ychwanegol o'r dosbarth (Cymeriadau Dychmygol)

Eliot Trot (ET)

Yn byw gyda: 15 tad, 12 mam, 54 chwaer, 15 brawd a 2,000 o anifeiliaid anwes

Mae ganddo sianel YouTube ac mae'n hoffi chwarae ar ei Xbox

Mae'n chwarae tennis ac yn hoffi pítsa

Nawr – Mae'n teimlo'n gyffrous ac yn edrych ymlaen i gyfarfod ffrindiau newydd oherwydd does ganddo ddim ffrindiau nawr.

Gyda newidiadau – mae'n flin oherwydd byddai'n rhaid i chi wneud ffrindiau newydd eto, a dysgu eich ffordd o gwmpas yr ysgol eto a chael athrawon gwahanol!

Rory

Yn byw gyda'i chwaer (Ellie) a'i frawd (Jack)

Yn hoffi addysg gorfforol a phrofion mathemateg ac amser egwyl

Hufen iâ fanila

Hapus dros ei ffrindiau

Ofn methu gwneud pethau a chael ei fwlio

Cyffrous am y syniad o ystafell ddosbarth newydd, ofn ffrindiau newydd

Ofn dechrau o'r newydd

Jack Frost

Yn byw gyda'i chwaer a dau frawd. Mae ganddo anifail anwes - tylluan yr eira

Yn hoffi sglefrio ar iâ, hoci iâ, hufen iâ, conau eira a Pokemon Go

Yn yr ysgol mae'n hoffi celf, pêl-droed, rygbi, mathemateg, gwyddoniaeth a llythrennedd

Poeni am yr ysgol gyfun oherwydd bod y gwaith yn anodd

Newidiadau – teimlo'n bryderus, yn nerfus, yn gyffrous oherwydd dechrau newydd.

Danial

Yn byw gyda 15 brawd a 15 chwaer

Yn hoffi mathemateg, llythrennedd a chwarae pêl-droed

Yn hoffi hufen iâ a sglefrio ar iâ a ffrindiau

Nawr – byddai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri. Mae'n hapus, cyffrous, iawn, poeni, dim ots ganddo, nerfus oherwydd ei fod yn mynd i ysgol newydd gydag athrawon newydd a ffrindiau newydd!!

Newidiadau – nerfus, oherwydd na fydd yn gwybod ei ffordd o gwmpas yr ysgol; hapus, oherwydd y cyfle i gyfarfod ffrindiau ac athrawon newydd; trist, oherwydd y gallai olygu bod rhaid gadael ffrindiau ar ôl.

Isobel

Yn byw gyda mam, dad, chwaer a dau frawd

Yn hoffi: ffrindiau, pêl-droed a dawnsio. Hoff fwyd yw pítsa, lasagne a phasta.

Nawr, byddai'n mynd i Ysgol Bryn Hafren – yn drist, oherwydd ei bod yn gadael yr ysgol gynradd, yn ofnus oherwydd ei bod yn mynd i le mwy ac yn gofidio oherwydd bod ei ffrindiau'n mynd i ysgol wahanol.

Byddai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri – mae'n meddwl ei fod yn dda, gallai fod yno gyda'i brodyr a'i chwaer

Lucy

Yn byw gyda'i chwaer a'i brawd (mam a dad wedi marw). Mae'n dod o Awstralia.

Mae'n garedig, yn annwyl ac yn hoffi helpu

Mae'n hoffi byrgyrs, pítsa a pheli cig

Mae'n hoffi ei ffrindiau, chwarae gemau ac ungyrn fflwffog pinc. Yn yr ysgol mae'n hoffi tynnu lluniau.

Nawr, mae'n mynd i Ysgol Bryn Hafren – mae ganddi ofn bwlio, mae'n teimlo'n drist ynglŷn â gadael ffrindiau ond yn gyffrous.

Gyda'r newid byddent yn flin.

Jeff

Yn byw gyda mam, dad, chwaer a phedwar brawd

Yn hoffi pítsa, ffrindiau a chysgu. Mae'n flêr.

Yn yr ysgol mae'n hoffi mathemateg, pêl-droed a gwyliau.

Gyda'r newid – byddai'n aros yn Ysgol Gyfun y Barri ond byddai'n drist oherwydd byddai eisïau bod gyda bechgyn.

Violet

Yn byw gyda mam, dad a'i brawd

Yn hoffi ffrindiau, pítsa a lasagne

Nawr – byddai'n mynd i BH – mae'n hapus oherwydd bod ei ffrindiau'n mynd, yn ofnus oherwydd ei bod yn ysgol fwy, yn gyffrous, wrth ei bodd, does yna ddim bwllis (bechgyn)

Gyda'r newidiadau byddai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri. Bydd yn hapus oherwydd ei bod yn ysgol newydd sbon, bydd pobl newydd yno a bydd yn adnabod llawer o'i ffrindiau.

Mariella

Mae ganddi ddau frawd mawr a dwy chwaer fach.

Mae ganddi lawer o ffrindiau. Mae'n hoffi bwyta pancos, siocled, bara, cinio rhost, india-corn, ffa, wyau a phasta.

Yn yr ysgol mae'n hoffi mathemateg a gymnasteg.

Nawr, byddai'n mynd i BH – mae'n hapus ynglŷn â hyn oherwydd bod athrawon pert yno a dim bechgyn sy'n dychryn pawb.

Gyda'r newidiadau byddai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri oherwydd lleoliad ei chartref. Pe bai'r rhan fwyaf o'r merched yn mynd i ysgol y bechgyn byddai'n ei gwneud yn fwy poblogaidd.

Ping Pong

Mae ganddo 8 brawd

Mae'n hoffi chwarae ping pong a bwyta menyn pysgnau a brechdanau jeli, a'i ffrind gorau yw Bangbong

Yn yr ysgol mae'n hoffi amser chwarae

Nawr, mae'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri ac mae'n teimlo'n chwyslyd ac yn nerfus

Gyda'r newidiadau, byddai'n aros yn Ysgol Gyfun y Barri. Mae'n flin oherwydd bod merched yn dod i'w ysgol ef, ond efallai y byddai rhai merched y mae'n eu hadnabod #ei gariad.

Jeff

Mae ganddo 5 brawd a 2 chwaer. Mae ei fam yn gyrru Ford GT40 ac mae gan ei dad Audi R8v10 Spyder

Mae'n mwynhau pêl-droed a chwarae gemau

Mae'n dda gyda thechnoleg

Nawr, bydd yn mynd i Ysgol Gyfun y Barri, mae'n gyffrous oherwydd bod ei frodyr yno.

Gyda'r newidiadau, mae'n symud oherwydd bod ei ffrindiau'n symud hefyd.

Katie

Mae'n byw gyda mam, dad, 1 brawd a 5 chwaer, 6 ci, 11 neidr, 2 bysgodyn ac 8 pry copyn

Mae'n hoffi gymnasteg a nofio a brownis siocled

Ei hoff bynciau yw celf ac addysg gorfforol

Nawr, bydd yn mynd i Ysgol Bryn Hafren. Mae'n teimlo'n gyffrous ac yn poeni oherwydd bod yna lawer o risiau yn yr ysgol newydd a does yna ddim bechgyn!!! IE !!!

Gyda'r newidiadau – byddai'n aros yn Ysgol Bryn Hafren. Byddai ychydig yn drist oherwydd bod ei ffrindiau wedi mynd i'r ysgol arall, ond byddai'n teimlo'n hapus oherwydd ei bod hi'n aros yn yr un ysgol.

Jim

Mae ganddo frawd o'r enw Bob, a chwaer o'r enw Mai. Ffermwr yw ei dad.

Ei hoff fwyd yw cyw iâr a'i hoff ddiod yw Sprite.

Mae'n hoffi pêl-rwyd a nofio.

Nawr, bydd yn mynd i Ysgol Bechgyn y Barri, mae'n gyffrous ac yn hyderus oherwydd gall wneud mwy o ffrindiau, ond bydd yn colli'r merched.

Gyda'r newidiadau, byddai'n mynd i BH, byddai'n drist gan nad yw ei ffrindiau'n symud a'u bod yn gorfod aros yn Ysgol Gyfun y Barri. Bydd yn teimlo'n ddryslyd hefyd. (oni bai) fod un o'r merched yn ferch roedd yn ei hadnabod

Lucy

Yn byw gyda mam, dad, brawd a chwaer fach

Mae'n mwynhau athletau, addysg gorfforol, sglefrio ar iâ a phêl-rwyd

Mae'n cŵl ac yn rebel

Nawr – byddai'n mynd i BH – mae'n teimlo'n dda oherwydd bydd yn osgoi'r bechgyn, mae'n dda mai ysgol i ferched yn unig yw hi.

Gyda'r newidiadau – byddai'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri. Mae hi braidd yn flin. Mae'n annheg oherwydd rydych wedi treulio dwy flynedd yn gwneud ffrindiau ac rydych chi'n gorfod newid nawr.

Lily

Mae ganddi bum aelod o'r teulu ond dim brawd na chwaer.

Ei hoff fwyd yw pítsa ac mae'n hoffi canu a dawnsio.

Mae'n hoffi gymnasteg, chwarae pêl-droed a chelf.

Nawr – bydd yn mynd i Ysgol Bryn Hafren, dydy hi ddim eisiau iddi fod yn ysgol gymysg.

Gyda'r newidiadau – mae hi'n poeni na fydd hi byth yn gweld ei ffrindiau eto a dydy hi ddim yn gwybod sut rai ydy pobl eraill.

Mark Multi

Mae'n byw gyda'i dad/ei fam a'i dad

Mae ganddo frawd o'r enw Dead Guy

Mae ganddo anifail anwes

Mae'n hoffi pêl-droed a rygbi a fflipio poteli. Mae'n dipyn o 'nerd'. Mae hefyd yn hoffi Lego, Deadpool a'r cyfrifiadur.

Nawr – bydd yn mynd i Ysgol Gyfun y Barri, does dim ots ganddo os yw hi'n ysgol gymysg.

Gyda'r newidiadau – byddai'n mynd i safle BH – mae'n drist oherwydd bod ei ffrindiau i gyd wedi mynd.

Jim Bob

Mae'n byw gyda mam, dad, chwaer ddiflas a brawd bach

Mae'n filiwnydd sawl gwaith drosodd ac yn unigryw iawn

Mae'n chwarae gitâr roc a thrwmped ac iwcaili ac allweddellau

Mae'n hoffi chwarae pêl-rwyd a thennis a phêl-droed

Mae'n hoffi daeareg

Nawr – mae'n mynd i Ysgol Gyfun y Barri – mae'n teimlo'n bryderus, yn anniddig, yn poeni, yn gyffrous, yn teimlo'n dda am Ysgol Gyfun y Barri oherwydd ei bod yn cŵl

Gyda'r newidiadau – mae'n teimlo'n flin, yn gyffrous, yn drist oherwydd bod ei ysgol yn cael ei dymchwel, yn poeni am y merched i gyd ac na fydd yn gallu canolbwyntio tra mae'r ysgol arall yn cael ei hadeiladu.

Ydw, nac ydw, efallai

Mae ysgewyll yn flasus

Ydynt 1 + 2 + 1 + 2

- Maen nhw'n llysh, yn enwedig yn y Nadolig x2
- Gyda chinio poeth
- Mmm gyda grefi
- Yn enwedig gyda selsig bach mewn cig moch
- Wrth fy modd â nhw
- Blasus
- Nadolig a'r Pasg arbennig o dda
- Byddai wy blas ysgewyll yn dda!

Efallai + 1

- Rwy'n eu hoffi ychydig bach, ond dydyn ni ddim yn eu cael nhw gyda chinio Nadolig
- Blasu'n iawn ond edrych yn afiach

Nac ydynt 10 + 8 + 7 + 9

- Soeglyd
- Afiach
- Gwyrdd
- Gwynto'n rhyfedd
- Peli pêl-droed gwyrdd
- Edrych fel fy chwaer
- Eu cicio nhw i ffwrdd fel baw trwyn gwyrdd
- Rwy'n casáu grefi
- Maen nhw fel bresych bach – ydw i ddim yn hoffi bresych ychwaith
- Roeddwn i'n arfer eu hoffi nhw
- Maen nhw'n blasu'n afiach, fel pw
- Maen nhw'n gwynto'n afiach, yn enwedig gyda grefi
- Blasu fel deilen
- Afiach
- Difetha'r cinio/dydw i ddim eisiau iddyn nhw fod yn rhan o ginio poeth x2

Eira yw'r tywydd gorau

Ie 5 + 8 + 7 + 6

- Chwarae yn yr eira
- Oherwydd bod fy nghi'n edrych yn anweledig
- Gwneud dyn eira x8
- Taflu eira/peli eira x2
- Angylion eira x3
- Iglws
- Yr unig adeg mae fy chwaer yn cau ei cheg
- Mae'n hwyl
- Cymaint o hwyl
- Cymaint o amser ers i ni gael eira
- Gallwch ei daflu at bobl a dydy e ddim yn gwneud dolur
- Mynd ar sled
- Nofio ynddo
- Claddu eich hun ynddo
- Mynd i lawr ramp sglefrio i eira
- Gallwch blymio i mewn iddo a dydy e ddim yn gwneud dolur
- Dydy e ddim fel glaw – rydych yn dal i allu mynd allan
- Does dim rhaid cael bath
- Rhoi'r gwres ymlaen i sychu

Efallai 4 + 3 + 4

- Rwy'n hoffi glaw
- Mae'n dibynnu pa fath o eira
- Pan mae'r haul allan mae'n neis
- Mae'n rhy oer x2
- Gallwch fynd yn dost oherwydd yr oerfel
- Dydy e ddim yn llawer o hwyl
- Mae angen i chi lapio i gadw'n dwym
- Rwy'n ei hoffi oherwydd mae'n hwyl ond dydw i ddim yn hoffi'r oerfel
- Mae'n hwyl peidio gorfod mynd i'r ysgol
- Mae tymhorau eraill yn neis hefyd a gallwch fwyta bwyd o gnydau

Na 2 + 1 + 2

- Nid fy hoff dywydd
- Ar ôl dau ddiwrnod mae'n fwdlyd ac yn wlyb
- Mae'n oer iawn x2
- Rwy'n mynd yn oer, dydy hynny ddim yn braf, rwy'n cael hypothermia
- Mynd yn oer ac yn wlyb
- Rwy'n cerdded at y llyn a phan mae wedi rhewi dydw i ddim yn gallu
- Rwy'n casáu gwisgo bŵts
- Ar ddiwrnod poeth rwy'n gallu cael lliw haul
- Rwy'n hoffi eira weithiau
- Does yna ddim llawer o bethau i'w gwneud
- Methu mynd ar y beic

- Methu mynd i unman

Dylai gwyliau'r haf fod yn hirach

Dylai 6/5 + 8 + 4 + 10

- Mae'r gwyliau'n mynd mor gyflym x2
- Bydden nhw'n gallu gwneud y gwyliau eraill yn fyrrach
- Gallwch fynd ar wyliau am fwy o amser x2
- Gallech gael mwy nag un gwyliau / diwrnod i ffwrdd x3
- Dim ysgol! x2
- Byddai mwy o amser i wneud pethau x2
- Mwy o amser i chwarae
- Hwyl
- Rwy'n hoffi aros yn fy ngwely
- Rwy'n hoffi peidio mynd i'r ysgol/llai o ysgol x2
- Mwy o amser i chwarae gyda'r xbox/ps4
- Treulio mwy o amser gyda chefnod a chyfnod sy'n byw dramor

Efallai 1 + 1

- Rwy'n hoffi gweld fy ffrindiau / colli fy ffrindiau x3
- Rwy'n colli Miss, mae hi'n neis iawn
- Os yw'n rhy hir rydych chi'n anghofio beth rydych yn ei ddysgu
- Ar ôl ychydig rwy'n ei golli
- Rwy'n diflasu, yn enwedig os ydych chi ddim yn mynd ar wyliau
- Calan Gaeaf

Na ddylai 1 + 2 + 1

- Angen dysgu mwy
- Rwy'n hoffi mathemateg
- Rwy'n hoffi dysgu a gwneud mathemateg gydag athrawon
- Rwy'n mynd yn unig, y cyfan rydw i'n ei wneud yw mynd allan gyda mam, mae ysgol yn rhoi rhywbeth i mi ei wneud
- Mae gwyliau'n gallu bod yn ddiflas
- Maen nhw'n ddigon hir
- Poeth

Rwy'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol gyfun

Ydw 7 + 2 + 4 + 3

- Mae'r ysgol gynradd yn ddiflas
- Hwyl
- Llawer mwy o ryddid
- Mae'n arwydd ein bod yn tyfu lan
- Mwy o ddewis amser cinio

- Cael mynd allan ar fy mhen fy hun o'r diwedd
- Cael gwneud beth mae fy mrawd yn ei wneud
- Cael ffôn!
- Fy lle fy hun i wneud gwaith cartref
- Peidio bod gyda fy chwaer fach ddiflas
- IPads
- Rydych chi'n dysgu mwy
- Gwersi
- Cael dewis pynciau
- Cael mwy ohono e.e. arbrofion gwyddonol, mwy o weithgareddau
- Gwyddoniaeth – rydych yn cael gwneud i bethau ffrwydro – cyffrous
- Pan fyddwch chi'n gorffen cewch fynd i'r coleg/prifysgol
- Cyfnod cosb ddim cystal fodd bynnag
- Athrawon newydd/mwy o athrawon x3
- Mwy o'r athrawon yn ddynion
- Gweld ffrindiau o ysgolion eraill
- Cyfarfod pobl newydd
- Ffrindiau newydd x2

Efallai 3 + 4 + 7

- Rwy'n hoffi fy ffrindiau a byddaf yn eu colli pan fyddwn yn mynd i ysgolion cyfun gwahanol x2
- ...ond byddaf yn gwneud ffrindiau newydd
- Byddaf yn colli Miss
- Rwy'n edrych ymlaen at y salon a'r gampfa a phopeth arall
- Edrych ymlaen, dechrau diflasu ar y cynradd
- Brawychus
- Byddwch gyda phobl dydych chi ddim yn eu hadnabod
- Brawychus oherwydd mae'n fawr/Gallech fynd ar goll – ysgol fawr x2
- Maint yr ysgol
- Mae'n dibynnu pa mor llym yw'r athrawon
- Ofn bwllis, os oes yna rai
- Rwy'n adnabod cryn dipyn o bobl sy'n mynd ac rwy'n edrych ymlaen i fynd gyda nhw, yn enwedig fy ffrindiau da.
- Dydw i ddim eisiau gadael fy ysgol gynradd ond rydw i eisiau gwneud mathemateg anos

Nac ydw 1 + 4 + 3 + 2

- Mae'n fawr, byddaf ar goll
- Rydw i eisiau aros yn Cadoxton am ddwy flynedd arall
- Byddaf yn colli fy ffrindiau x3
- Dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n barod ar gyfer yr ysgol gyfun
- Dydw i ddim eisiau tyfu lan
- Ddoe fe wnaethon nhw ddweud wrthym y byddai'n 6 sesiwn
- Mae gen i ofn na fydda i'n gallu gwneud popeth
- Bydd fy ngwaith i gyd yn mynd yn uwch, yn anos ac yn fwy.
- Maen nhw'n llym

- Mae yna brofion anodd iawn
- Dydw i ddim eisiau gweld fy mrawd (ym mlwyddyn 8) dydw i ddim yn ei hoffi.

Ydy ysgolion cymysg (cydaddysgol) yn syniad da

Ydy 3 + 3 + 4 + 3

- Mae rhai pobl eisiau mynd i ysgolion eraill oherwydd eu bod yn ysgolion cymysg
- Oherwydd brodyr a chwaer
- Mae bechgyn a merched yn cael rhyngweithio, cyfarfod pobl newydd
- Rydyn ni wedi bod mewn ysgolion cymysg drwy gydol y cynradd/Rydyn ni wedi bod mewn ysgol gynradd gymysg – byddai'n teimlo fel newid mawr, ychydig yn od/dim pwynt newid pethau/wedi arfer bod gyda'n gilydd x4
- Dydy un rhyw ddim fel bywyd go iawn
- Dydy ysgol un rhyw ddim yn ddiwedd y byd ond byddai ysgol gymysg yn well
- Os ydych yn tomboi efallai y byddech yn diflasu oherwydd eich bod gyda merched yn unig
- Os ydych yn ferch efallai y byddech yn teimlo'n fwy cyfforddus gyda bechgyn ac wrth dreulio amser gyda nhw
- Byddai gennych fwy o bobl i chwarae gyda nhw os nad ydych yn gallu cyd-dynnu â rhai merched
- Efallai y byddai bechgyn eisiau cariad
- Mae bechgyn yn chwarae gyda merched e.e. tombois
- Byddwn yn colli cael bechgyn/merched o gwmpas
- Mae'n fwy naturiol – dylai fod fel hyn bob amser
- Gall disgyblion sydd ar ei hôl hi neu ar y blaen fod yn y grwpiau lefel priodol

Efallai 5 + 4 + 6

- Mae bechgyn yn gweithio'n well mewn grwpiau cymysg
- Mae merched yn gweithio'n well ar eu pen eu hunain x2
- Weithiau maen nhw'n cael canlyniadau gwell os ydyn nhw'n gweithio gyda'i gilydd
- Dydy bechgyn a merched ddim yn chwarae gyda'i gilydd ond maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd
- Efallai y byddai ymladd
- Ymladd a dadlau
- Bechgyn yn ymladd dros ferched
- Dydy merched ddim yn ymladd, mae bechgyn yn gwneud
- Mae cymysg yn fwy digynnwrf ond yn fwy swnllyd
- Efallai y byddai bwlio
- Bydd ysgolion yn fwy
- Mae angen yr un faint o fechgyn a merched er mwyn i chi allu dewis gyda phwy rydych eisiau bod

Nac ydy 3 + 3 + 2 + 3

- Mae bechgyn yn gas
- Rydym wedi bod gyda nhw yn y blynyddoedd cynradd ac mae hynny'n ddigon
- Dydw i ddim eisiau gorfod mynd yn rhy bell i gael salon
- Byddaf mewn ysgol wahanol i'm chwaer. Byddai hi'n gallu sefyll i fyny dros of i.
- Rydw i eisiau aros yn y Barri ac iddo fod yn well

- Mae'n haws cadw pethau fel y maen nhw
- Pam na allan nhw ei adeiladu'n well?
- Caf weld fy mrawd a'm cefnder
- Mae'n gwylltio pobl sydd eisiau ei chadw yn ysgol i fechgyn
- Dydw i ddim yn hoffi bod gyda merched yn y cynradd, maen nhw'n ddiflas ac yn swnllyd
- Maen nhw (merched) yn meddwl bod popeth rydych chi'n ei ddweud yn broblem
- Maen nhw'n sgrechian ac yn rhoi dolur i'ch clustiau
- Oherwydd bod merched yn ofnadwy
- Byddai bechgyn yn dechrau taro merched
- Maen nhw wedi arfer bod ar eu pen eu hunain
- Rydych chi'n cael bod gyda phobl o'r un rhyw â chi a dydy'r lleill ddim o gwmpas i fynd ar eich nerfau
- Byddwch yn dod i arfer os yw'n ysgol i ferched yn unig
- Mwy i'w wneud ond mae hynny'n beth drwg oherwydd gallai rhywfaint ohono fod yn ddiflas

Mae'r cynlluniau newydd yn syniad da

Ydynt 3 + 2 + 2 + 8

- Byddai ysgol newydd yn dda o ran addysg a thechnoleg – llawer o bethau newydd
- Mwy cyffrous
- Newid mawr – ysgol fwy, ffrindiau newydd, nid bechgyn a merched yn unig
- Ffrindiau newydd
- Mae'n rhoi cyfle i chi fod gyda'r rhyw arall – gallwch gydweithio, yn enwedig os ydych chi ddim yn gallu cyd-dynnu gyda merched eraill.
- Gallwch fod gyda'ch ffrindiau gwrywaidd o'r cynradd
- Os ydy Ysgol Bechgyn y Barri mewn cyflwr gwael gallai ddod i lawr ar ein pennau, gallai fod yn beryglus.
- Does gan Ysgol Bechgyn y Barri ddim enw da iawn – gallai merched newid hynny, rhoi enw gwell iddi yna byddai mwy o bobl eisiau ymuno.
- Byddai mwy'n mynd yno pe bai'n ysgol gymysg – bydd pobl rydych yn eu hadnabod yno a phethau rydych wedi arfer â nhw
- Bydd yn cymryd amser i addasu i'r newid ond bydd bechgyn a merched yn cael cefnogi ei gilydd.
- Byddai'n anodd bod ar wahân i'm cariad
- Yn enwedig i tombois sydd ddim yn hoffi pethau merched o gwbl
- Mae rhai pethau tebyg a rhai pethau gwahanol ond efallai y byddent yn hoffi'r un pethau hefyd.
- Gallai'r enw newydd fod yn dda iawn
- Newid yr enw ond dim byd gwirion neu rhy wahanol – fel bod pobl yn gwybod am beth rydych chi'n siarad – bydd rhai pobl yn defnyddio'r hen enwau p'un bynnag oherwydd eu bod yn yr un lle
- Adeiladau mwy, a gwell

Efallai 2 + 5 + 2

- Bydd rhai pobl yn elwa, ond bydd eraill ddim yn elwa oherwydd eu bod yn gymysg

- Os ydych eisiau (cymysg), gallwch fynd i ysgol arall – mae dewis nawr
- Byddent yn gallu gwneud yr ysgolion yn lleoedd brafiach
- Erbyn i ni gyrraedd yno – bydd yn dal i newid
- Sut allwch chi weithio gyda'r holl sŵn?
- Bydden nhw wedi gallu codi estyniad i Ysgol Gyfun y Barri.
- Mae Bryn Hafren yn iawn nawr
- Mae angen gwneud rhywbeth yn Ysgol Gyfun y Barri – mae dŵr yn dod i mewn
- Efallai y byddech yn colli ffrindiau
- Bydd rheolau gwahanol
- Bydd yn fwy swnllyd, mae bechgyn yn ddrwg ac yn gwneud mwy o sŵn
- Mae bechgyn yn ddiflas ac yn ymladd
- Mae rhai o'r syniadau'n dda ond efallai na fyddai rhai'n gweithio
- Fydden ni ddim yn gallu cael un ysgol fawr?
- Dydyn ni ddim yn gwybod pam y byddech yn gwneud hyn, rydyn ni'n meddwl y bydden ni'n hoffi cadw pethau yr un fath ond dydyn ni ddim yn siŵr.
- Rydym yn credu y byddai gwneud yr ysgolion yn fwy modern yn syniad da
- Efallai na fyddai rhai eisiau bod gyda'i gilydd

Nac ydynt 6 + 3 + 2 + 2

- Maen nhw wedi bod yn dweud eu bod nhw'n mynd i wneud ers blynyddoedd a dydyn nhw ddim wedi gwneud
- Mae'r plant yn hapus nawr
- Mae'n wastraff amser os ydyn nhw'n ei wneud am ddim rheswm
- Dylem gadw pethau yr un fath
- Fe wnaeth rhywun ddweud yn y noson agored na fyddai'n cael ei newid
- Byddwn yn gwneud ffrindiau mewn dwy flynedd ac yna'n cael ein gwahanu
- Bydd yn effeithio ar flynyddoedd 5-6 os byddant yn ei newid
- Dydw i ddim eisiau i bethau newid, cadwch bethau fel y maen nhw, un ysgol i fechgyn ac un ysgol i ferched
- Yn lle ysgolion ar wahân, dylent wario'r arian i gyd ar un ysgol gydag ardaloedd ar wahân – ei rhannu'n 4 tŷ o tua 500, grŵp A1 – A5
- Os byddwch yn newid yr enwau bydd pawb eisiau mynd yno ac allwch chi ddim dal i newid o un i'r llall
- Dylai bechgyn a merched fod ar wahân
- Y gwaith fydd yn cael ei wneud mewn ysgolion newydd – gallai'r drilio fod yn ddiflas

Yr ysgol uwchradd orau'n y byd

- Enw newydd
- Gwisg ysgol newydd x2
- Gwisg ysgol bert/teidi/ffasiynol x5
- Gwisg ysgol gyfforddus braf
- Dim gwisg ysgol afiach
- Gwisgo eich dillad eich hun ar ddydd Gwener
- Cael DIM gwisg ysgol/dim gwisg ysgol x2
- Gwisg ysgol amryliw/mwy o liw ar wisg ysgol/siwmperi lliwgar x4

- Lliwiau neis i'r wisg ysgol ac rydych chi'n cael ei haddasu/rhywfaint o wisg ysgol/rhyddid â gwisg ysgol x2
- Siwmpwr las â throwsus/legins du; Glas a choch; Trowsus ac esgidiau du i fechgyn; sodlau du, sgert ddu a thop gwyn i ferched/esgidiau du yn unig/esgidiau unrhyw liw
- Dillad ysgol am ddim
- Pa bynnag esgidiau rydych eisiau eu gwisgo (ac eithrio fflip fflops)
- Gwisg ysgol ar gyfer gwahanol dai e.e. tân
- Cael gwisgo farnis ewinedd x2
- Athrawon neis x3
Athrawon gwell
- Dim athrawon
- Athrawon cefnogol x2
- Ffrindiau sy'n hwyl yn y dosbarth
- Athro/athrawes newydd bob 6 mis
- Pennaeth newydd bob blwyddyn
- Dim rheolau
- Cael ei galw'n ysgol orau'r Barri
- Ysgol neis iawn x2
- Tîm tŷ e.e. tân, dŵr, gwynt, daear
- Gwasanaeth dosbarth
- Grwpiau blwyddyn
- Llawer o dechnoleg
- Y dechnoleg iawn/gwell technoleg/technoleg newydd x6
- IPads sy'n gweithio/Ipads x3
- Cyfrifiaduron
- Cyfrifiannellau
- PS4
- YouTube
- Offer gwyddoniaeth
- Yr holl adnoddau iawn
- Dewis pynciau ym mlwyddyn 7/dewis pynciau x2
- Mathemateg dwbl newydd bob diwrnod
- Dylunio a thechnoleg
- Mwy o amser rhydd
- Pobi cacennau
- Blasu siocled
- Amrywiaeth o bynciau
- Cael salon
- Gwersi gymnasteg bob diwrnod
- Mwy o gelf
- Mwy o addysg gorfforol
- Dim gwaith cartref x3
- Bod yn yr un grŵp â'ch ffrindiau ar gyfer beth bynnag rydych yn ei wneud
- Cerddoriaeth
- Pobl enwog yn mynd yno bob diwrnod
- Cyfleusterau chwaraeon x2

- Cae a thiroedd/tiroedd gwastad x3
- Glaswellt artiffisial ar y caeau
- Cae pêl-droed a goliau/Arena pêl-droed/Clwb pêl-droed/Clybiau pêl-droed bechgyn a merched/Clwb Pêl-droed Bechgyn y Barri x7
- Cae rygbi
- Lle mawr braf ar gyfer chwaraeon fel pêl-droed
- Trac rhedeg
- Campfeydd x2
- Neuadd chwaraeon
- Cwrt tennis x2
- 39 cae
- Cael pwll nofio/Pwll nofio dan do ac awyr agored/Pwll nofio gyda bwrdd deifio/sleid/pwll 100m x10
- Byddai gan y cae chwarae le dŵr â sleid dŵr
- Pencampwriaethau badminton a thennis bwrdd
- Byddai'n ysgol gymysg felly byddai'n ysgol sy'n cefnogi chwaraeon ac felly'n annog uchelgais.
- Gemau pethau
- Adeilad amryliw
- Aur a sgleiniog
- Coch
- Adeiladau newydd
- Mwy o inswleiddio
- Cynllun modern
- Lle mawr crand
- Adeilad mawr x2
- Ystafelloedd dosbarth mawr
- Loceri fel nad ydych yn gorfod cario pethau x2
- Llyfrgell i annog darllen
- Lle i ymlacio os yw hi'n bwrw glaw yn ystod amser chwarae
- Parc a phethau hwyl
- Gerddi x2
- Ystafell i anifeiliaid/anifeiliaid/sŵ/mwncïod x5
- Cae mawr
- Digonedd o le
- Defnyddio'r lle â phosteri ac arwyddion
- Ystafell archwilio fel tai
- Toiledau da
- Teledu yn dweud ble i fynd ac am faint o'r gloch
- Sinema/teledu x2
- Arogl lafant/blodau ceirios
- Canolfan wybodaeth
- Canolfan siopa fach
- Cael ei defnyddio fel lleoliad i ddangos ffilmiau
- Llauer o dripiâu ysgol/triopiau ysgol hwyliog/triopiau ysgol anhygoel x5
- Tripiâu i wledydd eraill
- Gweithgareddau awyr agored yn ystod amser chwarae/egwyl/gweithgareddau hwyliog x3

- Llawer o glybiau ar ôl ysgol/clybiau ar gyfer popeth/clybiau gwahanol/gwell x8
- Clybiau i fechgyn a merched
- Clybiau chwaraeon
- Clwb dawnsio
- Dosbarthiadau coginio
- Clwb fflipio poteli
- Ystafell Nerf ar gyfer brwydrau Nerf
- Ystafell gemau/ystafell Xbox x2
- Mwy o amser chwarae/amser chwarae hirach x2
- Cadw ysgolion bechgyn a merched ar wahân
- Rwy'n meddwl y dylai aros fel y mae
- Ysgol gymysg x3
- Myfyrwyr neis
- Bwyd am ddim x2
- Cinio am ddim ar ddydd Iau/Gwener x2
- Cinio ysgol blasus
- Cinio bys a bawd
- Losin am ddim bob diwrnod
- Dewis mawr o fwyd
- Poptorn ym mhob ystafell
- Peiriannau gwerthu
- Bws preifat i fynd adref

Pleidleisiau dot ar gyfer eich ffefrynnau:

Cadoxton a Palmerston

- Dim rheolau (16)
- Llawer o dechnoleg (8)
- Dim gwaith cartref (6)
- Cae pêl-droed a golau (5)
- Pencampwriaethau badminton a thennis bwrdd (5)
- Dim athrawon (5)
- Gwisg ysgol ar gyfer tai e.e. Tân (4)

Gladstone, y Rhws a'r Stryd Fawr

- Pwll nofio â bwrdd deifio (8)
- Cyfrifiaduron (5)
- Pobi cacennau (4)
- Llyfrgell i annog darllen (4)
- Ystafell archwilio fel tai (3)
- Bwyd am ddim ar ddydd Gwener (3)
- Blasu siocled (3)
- Toiledau da (3)
- Disgos ar wahanol adegau o'r flwyddyn (3)

Gwenfo a Pharc Jenner

- Pwll nofio 100m (4)
- Ystafell gemau (3)
- Pobl enwog yn mynd yno bob diwrnod (3)

Ynys y Barri, Holton a Romilly

- Clybiau gwahanol a gwell (6)
- Clybiau bechgyn a chlybiau merched (4)
- Cael tripiâu i wledydd eraill (4)
- Dylunio a Thechnoleg (4)
- Gwisg ysgol merched – sodlau du, sgert ddu, top gwyn (4)
- Byddai gan y cae chwarae delfrydol ardal ddŵr yn cynnwys sleid dŵr a thrac rhedeg (4)
- Tripiâu ysgol anhygoel, gwisg ysgol ffasiynol, cymysg, technoleg fodern newydd, yr adnoddau iawn i gyd a chinio ysgol blasus, digonedd o le, cyfleusterau chwaraeon, defnyddio'r lle â phosteri ac arwyddion (4)
- Sinema (4)

Dymuniadau a phryderon

Dymuniadau

- Cael enw tebyg fel bod pobl yn dod i arfer ag ef yn gynt
- Bod ganddi enw da
- Y bydd fy ffrindiau i gyd yn mynd
- Y bydd gennyf lawer o ffrindiau ac y byddaf yn boblogaidd/nifer dda o ffrindiau*
- Cael mwy o ffrindiau/ffrindiau newydd**
- Bod pobl yn gyfeillgar/pobl yn gwneud ffrindiau*
- Cael rhai o'm ffrindiau o'r ysgol gynradd yn yr Ysgol Uwchradd
- Mwy o bobl yn yr ysgol er mwyn iddynt allu gwneud ffrindiau newydd
- Cael athrawon da/neis***
- Athrawon addysg gorfforol da
- (ysgol bechgyn) dylen nhw gael pennaeth newydd fel bod y pennaeth newydd yn gallu cael cynlluniau hyd yn oed yn well na'r llall.
- Bod yr athrawon ddim yn rhy lym
- I'r ysgol beidio â bod yn rhy lym ond bod yno reolau
- Athrawon yn egluro pethau'n dda
- Llai o athrawon. Dim ond un athro/athrawes ar gyfer y flwyddyn gyfan oherwydd rydych chi'n gorfod symud i ddsbarthiadau gwahanol
- Addysg dda
- Ysgol newydd, a braf
- Maen nhw'n ysgolion mawr/ mawr a mwy o ystafelloedd*
- Cael ysgol fodern
- Eu bod yn diweddarau pob ysgol gyfun
- Pawb yn mwynhau/mae'n hwyl**
- Bod pawb yn hapus i fynd a ddim yn teimlo'n ddigalon, yn teimlo'n hapus eu bod yno
- Y bydd popeth yn iawn

- Dim bwllis
- Mwy o dripiâu ysgol
- Bod mewn ysgol gymysg oherwydd dydw i ddim yn gallu cyd-dynnu â'r merched felly rwy'n treulio amser gyda'r bechgyn. Os na fydd bechgyn yn fy ysgol uwchradd bydd yn achosi problem.
- Ysgol y bechgyn a'r merched i fod yn gymysg *****
- ..Fel nad yw pobl yn ffrindiau gyda merched yn unig neu fechgyn yn unig
- ..oherwydd pan fyddwn yn cael gwaith byddwn yn gorfod gweithio gyda dynion felly erbyn hynny byddem wedi cael profiad
- ...Cymysg= gwell canlyniadau
- ...Mae bechgyn a merched yn cyd-dynnu*
- Ar hyn o bryd rydw i a llawer o blant eraill eisïau mynd i ysgol wahanol gan nad ydyn nhw'n ysgolion cymysg – mae pob bachgen a merch yn gallu gweithio gyda'i gilydd a bod yn ffrindiau fel mewn bywyd GO IAWN
- Iddynt beidio â chymysgu**
- ..oherwydd rydyn ni wedi bod gyda bechgyn yn yr ysgol gynradd
- I Ysgol Bechgyn y Barri aros fel y mae; (ond ei gwella)*
- Gwneud Ysgol Bechgyn y Barri yn well*
- Bryn Hafren i aros fel y mae, mae'n iawn fel y mae
- Cadw Bryn Hafren yn ysgol i ferched
- Byddwn yn hoffi pe baent yn anghofio'r cwbl
- Byddent yn stopio dweud eu bod yn mynd i gymysgu*
- Pam newid nawr, ydych chi ddim yn meddwl ei fod yn wastraff arian ac amser?
- Trueni na fyddwn i'n bennaeth ar y cyngor
- Dim llawer o waith cartref
- Ei gwneud yn ysgol greadigol dda
- Llai o waith
- Cael rhai gweithgareddau
- Mae'n ysgol dda**
- Technoleg dda/y dechnoleg ddiweddaraf*
- Bechgyn y Barri i gael IPads
- Rwy'n gobeithio y bydd y rhan fwyaf o'r pynciau'n parhau
- Peli pêl-droed, rhaffau sgipio a thennis
- (Ysgol merched) Eu bod yn cael ystafell archwilio, felly os byddwch chi eisïau darganfod rhywbeth gallwch fynd yno a gweld a yw yn yr ystafell honno.*
- Campfeydd mwy
- Pwll nofio a bwrdd deifio yn ysgol y bechgyn
- Bwrdd deifio, oherwydd wedyn byddai pawb yn meddwl ei bod yn boblogaidd
- Y byddent yn gadael i flynyddoedd 7 ac 8 ddefnyddio'r salon
- Byddwn i'n hoffi pe bai gwers lle byddech yn cael gwneud unrhyw beth
- Gwisg ysgol bert**
- Logo ysgol da
- Defnydd da

Pryderon

- Os na fydd Ysgol Bechgyn y Barri yn cael ei hadnewyddu gallai ddod i lawr ar eu pennau
- Gallech gael eich gwahanu oddi wrth eich ffrindiau/ddim yn mynd i fod gyda ffrindiau / bydd ffrindiau'n cael eu symud**
- Fydda i ddim gyda fy ffrindiau o'r ysgol gynradd/fydda i ddim gyda ffrindiau ddim mwy? Fydd fy ffrindiau ddim mor agos ag yr oedden ni'n arfer bod/colli rhai o'ch ffrindiau**
- Y byddem yn gwneud ffrindiau yn y ddwy flynedd ac yna bydd yn rhaid i chi wahanu*
- Beth os na fyddaf yn gwneud ffrindiau newydd?
- Colli ffrindiau
- Efallai y bydd bechgyn a merched yn ymladd yno/ddim yn cyd-dynnu*****
- Fydd hi ddim yn ysgol i fechgyn / merched ddim mwy/ eu bod yn debygol o gymysgu a does dim llawer o bwrpas*
- Os bydd unrhyw fechgyn yn mynd ar fy nerfau
- Rhy brysur gyda mwy o fechgyn nag o ferched
- Efallai y bydd rhai rhieni eisiau i'w mab fynd i ysgol bechgyn yn unig a'u merch i ysgol merched yn unig / efallai y bydd rhai rhieni'n meddwl pethau gwahanol felly rhaid i chi fynd i BH/BB
- Fydd pobl ddim yn ymwybodol o rai sy'n perthyn i'r rhyw arall
- Efallai na fydd yn gymysg felly bod ar wahân i'm chwaer
- Mae gen i ofn na fyddan nhw'n cymysgu'r ysgolion/ na fydd y cyhoedd yn ymateb yn dda ac na wnân nhw gymysgu'r ysgolion*
- Byddant yn gwneud cymaint o sŵn ac yn mynd ar nerfau myfyrwyr eraill
- Os na fydd gen i athrawon neis
- Mwy o athrawon
- Efallai na fydd yr athrawon yn addysgu'n dda iawn
- Os bydd gennym athrawon cas, llym*
- Bydd bwllis yno /Os bydd rhywun yn fy mwlio i/rhywun arall /bwlio oherwydd dydyn nhw ddim wedi arfer â chynifer o blant*****
- Cael dolur
- Os na fyddaf i'n gwybod ble mae pob dim
- Bod yn newydd
- Efallai na fydd pawb yn cael lle yn yr ysgol/ bydd hi'n anodd cael lle yn yr ysgol gyfun rydyn ni eisiau mynd iddi*
- Gorfod symud i Ysgol Bryn Hafren
- Y bydd Ysgol Bechgyn y Barri yn cael ei dymchwel
- Os na fyddwn ni'n cael lle mewn ysgolion eraill dydw i ddim yn gwybod beth wnawn ni
- Y bydd gwisg ysgol newydd yn Ysgol Bechgyn y Barri
- Gwisg ysgol afiach*
- Gallai'r enw fod yn un gwirion
- Enwau newydd i'r ysgolion – efallai na fydd pobl yn sylweddoli nad yw'r ysgol yn un dda iawn felly gallai fod yn ofnadwy
- Efallai na fyddaf i/pobl yn hoffi'r ysgol**
- Y byddaf yn gorfod mynd i'r cyfnod cosb ar y diwrnod cyntaf
- Mae gen i ofn y byddaf yn anghofio popeth
- Dydw i ddim eisiau mynd mewn gwirionedd
- Fydd yna ddim llawer o amser i astudio, byddaf yn poeni

- Poeni y bydd fy ngwaith yn flêr oherwydd y drilio
- Y bydd yn swnllyd i bobl sy'n ceisio gweithio ac astudio
- Rwy'n poeni os na fydd yn digwydd y byddant yn gwastraffu amser ac yn gofyn eto
- Y bydd yn digwydd, y bydd yn ofnadwy

Cwestiynau a godwyd: (atebwyd y rhain ar y diwrnod os oedd modd)

- Ble fydd yr ysgol newydd?
- Pam na allan nhw gadw pethau yr un fath?*
- Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i addasu (disgyblion)?
- Pam na wnân nhw newid Ysgol Bechgyn y Barri yn unig?
- Pam cael dwy ysgol ar wahân yn hytrach nag un ysgol fawr gydag adran is ac adran uwch?
- Beth fydd yn digwydd i ferched yn Ysgol Bryn Hafren fydd yn gorfod symud ar ôl 1 neu 2 flynedd i Ysgol Gyfun y Barri ac yn colli ffrindiau newydd?
- Fydd y gwaith adnewyddu'n digwydd yn ystod amser ysgol?
- Fydd blwyddyn 11 yn aros ble maen nhw?

Enwau a awgrymwyd ar gyfer yr ysgolion newydd

Ysgol Gyfun y Barri	Bryn Hafren
Barry Hafren	Saint Hafren
Only Barry Boys	Welsh Hafren
The Barry School	7 Stages
The Barry Comp	Barry Hafren
The New Barry	The Newest Barry
The Mixed School	The High Hafren
	The Mixed Comp

© Dynamix 2016 – cedwir pob hawl

Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r adroddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw gan Dynamix.

Manylion er mwyn Cysylltu



01792 466231

Info@dynamix.coop

www.dynamix.coop

Uned 4D, Cwm Road, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

Arbenigwyr Ymgynghori: Phill Burton a Jo Stephens
Cydlynnydd Prosiectau: Sionedwyn Stacey



Prif swyddogion cyswllt: Mike Matthews a Lisa Lewis
Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau
Cyngor Bro Morgannwg
01446 709727

MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

LLewis@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk